PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 351a | MEDI 2012

24 tudalen

Portreadu Gwynfor t16



Rhaglen ddyddiol t15



Taith i Tonga t17





Arwel Jones, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Haf Evans, Betsan Siencyn, Hywel Jones, Llywydd Clwb Rotari Aberystwyth; Sioned Morris, Dewi Davies; Christine Evans, Canolfan Croeso Aberystwyth; Gareth Owen, Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian.

# Dylunwyr dawnus

Mae dylunwyr graffeg galluog sy'n mynychu ysgolion yng ngogledd Ceredigion wedi derbyn yr her o ddylunio cyfres o bamffledi i hyrwyddo llefydd arbennig i ymweld â hwy yn Aberystwyth a'r cyffiniau, mewn cystadleuaeth a drefnwyd ar y cyd gan Glwb Rotari Aberystwyth a Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion. Roedd y gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion ysgolion cynradd ardal Aberystwyth a myfyrwyr blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ysgolion Pen-glais a Phenweddig.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr:

Ysgolion cynradd: Gwobr gyntaf: Haf Evans, Ysgol Pen-llwyn, Capel Bangor - Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ysgolion uwchradd:

Gwobr gyntaf: Betsan Siencyn o Dal-y-bont, Ysgol Penweddig - Castell Aberystwyth.

Ail wobr: Sioned Morris, o ardal Llanrhystud Ysgol Penweddig - Rheilffordd Cwmrheidol.

Trydedd wobr: Dewi Davies, o ardal Llanrhystud Ysgol Penweddig - Bwlch Nant yr Arian.



Gweler y stori ar t.12

Llun: Photos Cymru

John a Menna Davies, Llywydd Sioe Llanelwedd a'i wraig, Yr Athro Will Haresign - Dirprwy Gyfarwyddwr IBERS a Manod Williams, Bow Street, yn cael ei wobryo fel myfyriwr amaethyddol gorau IBERS, Prifysgol Aberystwyth eleni.

Mae Photos Cymru yn cynnig gwasanaeth ffotograffiaeth ar draws Gymru gyfan; - sioeau amaethyddol, Eisteddfodau, aduniadau, partïon a phriodasau. Gweler www.photoscymru.com

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts**
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
**Anwen Pierce**, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Hydref

**Deunydd i law: Hydref 5 | Dyddiad cyhoeddi: Hydref 18**

**MEDI 21-22** Dyddiau Sadwrn a Sul Pencampwriaethau Aredig y Pum Gwlad a Chymru y Morfa Mawr, Llan-non.
Am fanylion cysylltер â Mags Jones 01239 851 451/ 07813 533917 neu Phyllis Harries 01974 202 308

**MEDI 23** Prynhawn Sul Cyngerdd yng Nghapel Mynach, Pontarfynach yng nghwmni Côr Côrisma, Cwm-ann am 3.00 Tocynnau ar gael oddi wrth Mair Davies 890 245

**MEDI 26** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Dei Tomos yn festri Horeb am 7.30

**MEDI 27** Nos Iau Cwrdd diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes am 7.00. Pregethwr gwadd: Dr. Rhidian Griffiths Aberystwyth

**HYDREF 3** Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Horeb, Penrhyn-coch yng nghwmni Aled Pickard o Gymorth Cristnogol am 7.00

**HYDREF 3** Nos Fercher Gwasanaeth diolchgarwch Horeb, Penrhyn-coch, yng nghwmni Aled Pickard o Gymorth Cristnogol am 7.00. Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol

**HYDREF 5** Nos Wener Cwis a cawl yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 6** Dydd Sadwrn Diwrnod i'r Brenin ar Faes y Sioe, Llanelwedd. **Trefnir bys o'r ardal fydd yn gadael ca 8.30 - enwau i Y Parchg Richard Lewis neu Ceris Gruffudd**

**HYDREF 10** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas Gymraeg y Borth

**HYDREF 11** Nos Iau Noson agoriadol Clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn Festri'r Garn, Bow Street o dan arweiniad Eleri, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion am 7.00.

**HYDREF 12** Nos Wener Eisteddfod papurau bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach

**HYDREF 15** Nos Lun Plaid Cymru Rhydypennau. Noson yng nghwmni Dr Eurfyl ap Gwilym, neuadd Rhydypennau, 7.30 p.m. Croeso cynnes iawn i aelodau a ffrindiau. Croeso arbennig i ganghennau lleol eraill. (Nodwch fod dyddiad y cyfarfod hwn wedi newid o 24 Medi)

**HYDREF 17** Nos Fercher Leusa Llewelyn yn Dilyn ôl troed T Ifor Rees - teithio yng nghanolbarth America. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 19** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch am 7.00

**HYDREF 19** Nos Wener Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur, Pontrhydfendigaid 2013

**HYDREF 26-27** Dyddiau Gwener a Sadwrn Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Bro Ddyfi 2012 ym Machynlleth

**TACHWEDD 2** Nos Wener Taith Dathlu 50 mlynedd Dafydd Iwan yn Llety Parc, Aberystwyth gyda Lisa Angahrad Healy am 8.00 Tocynnau £10 o Llety Parc.

**TACHWEDD 7** Nos Fercher Bara Caws yn perfformio 'Un bach arall eto' (Twm Miall) yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth am 7.30. Tocynnau: Fal Jenkins 832 560

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu.
Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

### Cam-rifo'r Tincer

Diolch i un darllenydd sylwgar am sylwi i ni gamrifo dau rifyn o'r *Tincer*. Roedd rhifyn Ebrill 2012 wedi ei rifo yn gywir yn 348 ond galwyd rhifyn Mai 2012 yn 350 ( yn lle 349) ac un Mehefin yn 351 yn lle 350. Dim ond llyfrgellwyr ac ambell un arall fyddai yn sylwi efallai! Ond er mwyn dod a'r rhifo yn ôl i drefn gelwir y rhifyn yma - Medi 2012 - yn 351a.

### Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion

Cynhelir yr uchod yn Neuadd Felin-fach, Dyffryn Aeron am 7 o'r gloch nos Wener 12fed Hydref.
Arweinydd: Geraint Lloyd
Beirniad: Y Prifardd Dylan Iorwerth

**LLWYFAN**:
Dweud stori ddoniol
Darllen darn heb ei atalnodi
Datganiad ar y llwyau gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant
Sgets neu ddeialog - cwynion i'r golygydd
Côr garglo - rhoddir y dôn ar y noson

**GWAITH CARTREF**:
Slogan - denu pobl i'r eisteddfod ddwl
Dysgwyr - dyddiadur gwyliau
Plant oed cynradd - paentio hunan bortread
Pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - llythyr mynegi barn

Brawddeg - **C-Y-S-T-A-D-L-U**
Gorffen limerig - Un noson wrth fynd lan i'r gwely
Creu poster i hysbysebu papur bro.

**Dyddiad cau i dderbyn gwaith cartref.** (Tŷ Cerrig, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET): 5ed Hydref

**Os oes unrhyw un â diddordeb cystadlu fel unigolyn neu mewn sgets / dialog rhowch wybod i ysgrifennydd y Tincer (Anwen Pierce) cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda.**

Penderfynodd Pwyllgor *y Tincer* ofyn i'r dylunydd newid y diwyg ar gyfer eleni a gwneud mân newidiadau eraill. Awgrymwyd y byddai yn syniad cael geirfa yn rhestru rhai geiriau gyda'u hystyr yn Saesneg ac fe welwch enghreifftiau yn y rhifyn yma. **Beth yw eich barn am hyn - ydych chi yn hoffi y diwyg newydd?** A fyddech am gael mwy o eiriau gyda chyfeithiadau? A fyddai yn haws eu cael ar un dudalen yn hytrach nac ar waelod y dudalen? Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. **Golygydd**



## 20 MLYNEDD YN OL

Saith a urddwyd i'r orsedd fore Llun yr Eisteddfod: o'r chwith i'r dde: Joyce Evans, Capel Bangor; Angharad a Mererid Lewis, Rhos-goch, Capel Dewi; Anwen a Caryl Ebenezer, Bow Street; Non Jones a Rhian Heledd Jones - y bedair o Bow Street. Llun: Anthony Pugh (O *Dincer* Medi 1992)
Diddorol yw - o holi lle mae y saith yn 2012! Joyce George yn bennaeth ar dair ysgol, sef Pontrhydfendigaid, Syr John Rhys, a Mynach yn briod ac yn fam i ddau o blant; Angharad Rowlands yn dal yng Nghapel Madog yn briod ac yn fam i dri phlentyn; Mererid Lewis Davies yn briod ac yn byw yng Ngilwern, ger y Fenni; Anwen Ellis yn briod yn byw yng Ngwaelod-y-garth ac yn fam i dri o blant a Caryl yng Nghaerdydd yn briod ac yn fam i ddau; Non yn dysgu yn Ysgol Coed y Gof, Caerdydd a newydd ddyweddio a Rhian Heledd Boyce yn byw yng Nghaerdydd ac yn dysgu yn Ysgol Treganna, yn fam i ddau o fechgyn ac yn disgwyl plentyn arall yn Nhachwedd!

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

### CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mehefin 2012
**£25** (Rhif 112) Mair Evans, 24 Glanceulan, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 192) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor
**£10** (Rhif 30) Mary Thomas, Tŷ Clyd, Llandre
Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mehefin 27
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.
Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

### RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cylch Cinio Aberystwyth £100

**Eglwys Elerch, Bont-goch**
**Diolchgarwch am y Cynhaeaf**
**Cymanfa Ganu**
**Arweinydd - Dai Jones, Llanilar**
**Unawdydd - Rebecca Jewell**
**Dydd Gwener, Hydref 5**
**7.00pm**
Mynediad am ddim



## Y BORTH

# Gwobr i un o Gewri'r Byd Darlledu

Dmewn cinio arbennig yng Ngwesty Morgans, Abertawe ar Orffennaf 12fed dyfarnwyd Gwobr Cyfrwng eleni i'r cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr dylanwadol, John Hefin, y Borth am ei gyfraniad allweddol i fyd y cyfryngau yng Nghymru.

Mae John yn uchel iawn ei barch oherwydd ei waith ar gyfer BBC Cymru dros y deugain mlynedd diwethaf. Yn ystod ei gyfnod yno fel Pennaeth Drama, bu'n gyfrifol am gynhyrchu a chyfarwyddo rhaglenni rhagorol megis *Bus to Bosworth* gyda Kenneth Griffith, *Life and Times of David Lloyd George* gyda Phillip Madoc, *Tough Trade* gyda Sir Anthony Hopkins a'r ffilm fythgofiadwy *Grand Slam*, gyda Hugh Griffith, Sharon Morgan, Dewi Pws Morris a Siôn Probert. Chwaraeodd ran amlwg hefyd mewn cynyrchiadau fel *Penyberth*, *Un Nos Ola Leuad* a'r gyfres drawiadol *Cartrefi Cefn Gwlad Cymru* ar gyfer S4C ond efallai mai wrth greu'r gyfres sebon boblogaidd, *Pobol y Cwm*, y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf.



*Pobol y Cwm* oedd creadigaeth John Hefin ar ddechrau'r saithdegau ar y cyd â'r awdur Gwenlyn Parry. Ac yn sgîl ei waith nodedig ar y gyfres honno, sydd wedi bod yn un o gonglfeini darlledu Cymraeg am ddegawdau, enillodd *Pobol y Cwm* wobr BAFTA Cymru. Bu John Hefin hefyd yn weithgar iawn gan roi yn hael o'i amser i nifer o sefydliadau sy'n hyrwyddo ffilm a'r cyfryngau yng Nghymru. Bu'n gadeirydd Comisiwn Ffilm Cymru a'r Ŵyl Ffilm Geltaidd a bu'n llywio Cyfrwng fel Cadeirydd am ddegawd hyd ei ymddeoliad yn 2011. Bu hefyd yn Gymrawd Dysgu (Ffilm) Prifysgol Aberystwyth ac yn Gymrawd gyda Choleg Cerdd a Drama Cymru lle y bu'n ysbrydoli cenhedlaeth newydd o fyfyrwyr, perfformwyr ac academyddion ifanc ym maes ffilm a theledu. Yn ychwanegol, derbyniodd MBE am ei wasanaeth i fyd y ffilm yng Nghymru yn 2009, a derbyniodd Wisg Wen yr Orsedd am ei gyfraniad i'r byd teledu.



Aelodau Cymdeithas Gymraeg y Borth yn sgwrsio a slochian coffi yng Nghastell Deudraeth ar eu taith flynyddol ym mis Mehefin a drefnwyd gan Lywydd y llynedd, john Hughes, Dolau. Aethpwyd ymlaen trwy Feddgelert a Llanberis i Gaernarfon; croesi'r ddwy bont i daro cis ar Fôn gan ddychwelyd trwy Gonwy a Betws-y-coed.

# Humphrey Owen Jones

Roedd Humphrey Owen Jones a Muriel Gwendolen Edwards ymhlith y galluocaf o fyfyrwyr a anfonwyd o Brifysgol Cymru ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Bu eu marwolaeth drychinebus wrth ddringo yn yr Alpau gan mlynedd yn ôl a hwythau ar eu mis mêl yn peri arswyd i lawer am flynyddoedd wedi hynny.

Ganwyd H.O.J. yn Rock Cottage, Melindwr, Goginan ar 20 Chwefror 1878, yr hynaf o bump o blant. 'Roedd ganddo dri brawd ac un chwaer. Symudodd y teulu i Lynebwy pan oedd tua 7 mlwydd oed ac addysgwyd ef yn Ysgol Lewis, Pengam. Daeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, yn 1894 ar bwys ysgoloriaeth a graddiodd yn 1897 yn B.Sc., ymhlith graddedigion cyntaf prifysgol newydd Cymru. Oddi yno aeth i Goleg Clare, Caergrawnt gan raddio yn uchel yno yn 1900. Yn 1901 apwyntiwyd ef yn Arddangosydd i'r enwog Sir James Dewar. Yn 1902 etholwyd ef yn gymrawd Coleg Clare.Yn y blynyddoedd 1900-1912 ymddangosodd ei enw ar ddim llai na 60 o gyhoeddiadau yn ymwneud â chemeg.

Oherwydd ei allu fel ymchwilydd cafodd ei ethol i'r Gymdeithas Frenhinol (FRS) ac yntau ond yn 34 oed.

Priododd ar Awst 1 1912 gyda Muriel Gwendolen Edwards o Lanberis, merch Ficer Bangor, a oedd wedi astudio cemeg ym Mangor a Choleg Newham. Hi oedd y fenyw gyntaf i gael ei gwneud yn gymrawd Prifysgol Cymru.

Roedd y ddau ohonynt yn ddringwyr profiadol ond ar Awst 15 1912 tra yn dringo Mount Rouge de Peteret slipiodd eu tywysydd a disgyn i ben H.O.J.a disgynnodd y tri ohonynt i'w marwolaeth ar Glasier Fresnay islaw. Claddwyd hwynt yn Courmayer yng ngogledd yr Eidal.

Gellid cael rhagor o fanylion am gampau H.O.J. mewn llyfr o'r enw *Ar Drywydd y Dringwyr* gan Dewi Jones, (Gwasg Dwyfor, 2010) -sef braslun o hanes cynnar mynydda.

Methais hyd yma a chael gwybod ym mhle roedd Rock Cottage, Melindwr, Goginan, ple ganwyd H.O.J. Diddorol hefyd fyddai gwybod os oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod rhywbeth am aelodau o'i deulu sy'n dal yn fyw.

## GOGINAN

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Chris Hughes, Bryn Pica, ar farwolaeth sydyn ei fam yn ddiweddar.

**Geiriau** dyfarnu – award | cyfryngau – media | Cymrawd – Fellow

# LLANDRE

### Dr Eleanor James

Trefnwyd te gan aelodau cangen Genau'r-glyn o Sefydliad y Merched yn ystod Mis Mehefin i ddathlu dadorchuddio cofeb i Dr Eleanor James, Dolhuan. Gosodwyd y gofeb ger y rhosyn a blannwyd Y llynedd er cof amdani yng ngardd Sefydliad y Merched o dan yr Eglwys.
Dymuniad yr aelodau lleol oedd i gofnodi cyfraniad Eleanor i'r Sefydliad yn lleol yn ogystal a drwy'r Sir ac yn Genedlaethol.

Pleser mawr oedd croesawu David James, gŵr Eleanor i'r te ac roedd presenoldeb cynrychiolwyr o ganghennau eraill yn y Sir a swyddogion y Sefydliad yn adlewyrchiad o'r parch a'r gwerthfawrogiad sydd gan y Sefydliad ac eraill i'w chof.

Rhoddwyd teyrnged iddi gan Mrs Margaret Williams ( sydd yn aelod o'r cychwyn pan sefydlwyd Cangen Genau'r-glyn ym 1949) ac hefyd gan Mrs Ann Jones (Cadeirydd y Ffederasiwn yng Ngheredigion ac oddi wrth Mrs Jo Davies (Cynghorydd y Sefydliad).

Ganwyd a magwyd Eleanor yn Aberystwyth; roedd ei thad yn bostfeistr yn y dref. Derbyniodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol Ardwyn cyn mynd ymlaen i ddilyn cwrs Mathamateg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth lle graddiodd gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf ym 1956.

Wedi graddio, ymunodd â staff yr Adran Mathamateg ac enillodd ei doethuriaeth yn yr Adran. Ar ôl priodi â David ymgartrefodd y ddau yma yn Llandre ym 1960 a daeth yn aelod o Sefydliad y Merched, Genau'r-glyn.

Bu yn dal nifer o swyddogaethau yn y gangen leol a bu yn gadeirydd ar nifer o gyfnodau. Bu yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Ffederasiwn yng Ngheredigion, yn drysorydd y Ffederasiwn rhwng 1989 a 1992 ac o 1993 i 1996, hi oedd y Cadeirydd Sirol. Hyfforddwyd hi fel yn un o Gynghorwyr Sefydliad y Merched yn y Sir ac yn sgîl y cyfrifoldeb hwn bu yn ymweld â nifer helaeth o ganghennau ar draws y sir i gynghori a





rhoi arweiniad. Tra yn Gadeirydd bu yn gyfrifol am arwain prosiect "Pathways to the Millenium" yng Ngheredigion oedd yn annog pob cangen leol i ddatblygu cynllun i wella safon bywyd yn eu cymuned.

Gwasanaethodd Eleanor hefyd fel Is-gadeirydd Sefydliad y Merched Cymru ac yr oedd yn aelod o bwyllgor gwaith ar yr Amgylchedd a Materion Cyhoeddus Cymru a Lloegr.Roedd ei meddwl clir a'i chymeriad cyfeillgar yn ei gwneud yn aelod a chadeirydd effeithiol mewn llu o bwyllgorau a mudiadau gwirfoddol. Credai yn gryf yng ngwerth addysgol a chymdeithasol Sefydliad y Merched.

Roedd ei chyfraniad yn ymestyn i nifer o gyrff a mudiadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol. Bu yn gadeirydd y CAB yn Aberystwyth, yn Gadeirydd ar Bwyllgor Gwarchod Cymru Wledig yng Nheredigion a Chymru gyfan. Gwasanaethodd hefyd fel aelod o Gyngor Prynwyr Cymru ac fel aelod o Gomisiwn Layfield ar Ariannu Llywodraeth Leol ac ar Awdurdod Heddlu Dyfed- Powys.

Bu colled fawr ar ei hôl ond gadawodd gyfraniad fydd yn parhau. Rhoddodd yn hael i Ffederasiwn Sefydliad y Merched yng Ngheredigion sydd yn eu galluogi bellach i roi ysgoloriaethau fydd yn gallu i dair aelod pob blwyddyn fynychu cwrs yng Ngholeg Denman, Rhydychen.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus iawn i Regina Jones, Bron y Gân a Hazel Pitt Maesyrhedydd, a fu'n dathlu pen blwyddi arbennig yn ystod y misoedd diwethaf.

### Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Meleri Wyn, Y Berllan, a Matthew Flint ar eu priodas yng Nghapel y Garn ar y 1af o Fedi.

### Treftadaeth Llandre

27 Medi : Y Bwthyn Cymreig – arferion adeiladu'r tlodion gwledig – Eurwyn Wiliam. Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre gan gychwyn am 7.30 yh.

### Ymddeoliad hapus

Pob lwc i Jean Jones, Goleufryn, Taigwynion ar ei ymddeoliad o'i gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol ar ôl dros 30 o flynyddoedd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Carol Freter, Tan y coed, a'r teulu ar farwolaeth ei phartner Hugh Adrian Jones a fu farw'n sydyn ym mis Gorffennaf.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob lwc i bobl ifanc yr ardal sydd wedi derbyn canlyniadau arholiadau lefel A a TGAU. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

### Priodas

Dymuniadau gorau i Carwyn a Jemma Williams, Llwyn, ar eu priodas ym mis Mehefin.

### Croeso

Croeso i ddau deulu i'r pentref. Gethin a Tania Evans a'r plant Erin Masey a Freya Elen i Gaerolwg, Lôn Glanfred; ac Alan a Jennie Yates i White Cross. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### Croeso adref

Croeso adref i Mari Davies, Dolawel, ar ôl cyfnod o 7 mis yn trafaelu.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Dr Anne Ross Feachem, Felin Gyffin, fu farw yn ei chartref ar Awst 29ain. Yn ysgolhaig Celtaidd cyhoeddodd nifer o lyfrau ar dderwyddon a'r Celtiaid, ac un *The folklore of the Scottish Highlands* (Batsford, 1976) gyda lluniau gan ei diweddar ŵr Richard Feachem.

Hefyd â Martin Robson Riley a'i wraig Gill, Llwyn Onn, ar eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw mam Martin ar ddechrau Medi yng nghartref nyrsio Plas Cwmcynfelin.

*Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost: mairllo@hotmail.co.uk*

# PENRHYN-COCH

**Suliau**
**Horeb**
**Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**
**Medi**
23 10.30 Gwasanaeth Sul Heddwch Gweinidog
30 10.00 Oedfa Gomisiynu Eleri Barder, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid, Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion ym Methel, Stryd y Popty. Fe fydd eglwysi'r dref a'r ardal yn ymuno ar gyfer yr oedfa hon.

**Hydref**
7 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
14 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
21 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
28 10.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter Thomas

**Salem**
**Medi**
30 2pm Noddfa, Y Parchedig Andrew Lenny, Diolchgarwch

**Hydref**
7 2pm Y Parchg Richard H Lewis, Cymundeb
14 10am Bethel, Tal-y-bont, Cyfarfod Undebol (Diolchgarwch plant)

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Medi, 10 a 24 Hydref. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones y cynhelir Eisteddfod 2013 ar Ebrill 26 a 27ain.
Y beirniaid fydd: nos Wener - Pete Leggett, Dolau (cerdd); Catrin Mai Davies, Tal-y-bont (Llefaru). Dydd Sadwrn: Ann Atkinson, Corwen (Cerdd); Mair Wyn, Glanaman (Llefaru a llenyddiaeth) a'r Llywyddion - Glenys Morgan, (nos Wener), Dafydd Sheppard, (Prynhawn Sadwrn), Ceris Jones, Waun-fawr (Nos Sadwrn).
Llongyfarchiadau i Carys Mair Davies, Llanbadarn - enillydd Tlws yr Ifanc 2007 a 2008 am ennill y Gadair i rai dan 25 oed yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Llambed dros Ŵyl y banc. Mae Carys newydd orffen gradd yn y gyfraith a'r Gymraeg.

### Gweinidog ym Mhontardawe

Dymuniadau gorau i Steffan Jones, Ger-y-llan, a'r teulu sydd wedi symud i Bontardawe lle mae Steffan yn weinidog ar Eglwys Efengylaidd Pontardawe.

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i Rhys Wyn James, 35 Dôl Helyg, am pasio arholiad gradd 1 ar y piano.

### Gwobr

Llongyfarchiadau i Sara Beechey ar ennill gwobr am yr ymgyrch farchnata mwyaf dyfeisgar ddiwedd Mehefin am yr Hen Lew Du, Aberystwyth.

### Croeso

Croeso i Gethin, Elin Haf a Twm sydd wedi symud i'r Ddôl Fach o Aberystwyth. Mae Gethin ac Elin ar staff y Llyfrgell Genedlaethol a Gethin yn gyfarwydd iawn â'r pentref fel un fu'n chwarae pêl-droed i Benrhyn-coch.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lowri ac Owain Schiavone ar enedigaeth mab - Moi Tudur - ar 27 Gorffennaf. Brawd bach i Llew Ifan a ŵyr arall i Delyth Jones, Rhydyrysgaw, Glan Ceulan.

### Astudio dramor

Dymuniadau gorau i Einion Dafydd, Rhandir,sydd yn treulio tymor yn ymchwilio yn ninasTampere, Gorllewin y Ffindir.

### Eglwys Sant Ioan

Cynhaliwyd y Te Hufen a Mefus blynyddol ar 19eg o Orffennaf, yn Neuadd yr Eglwys, ac fe'u hagorwyd yn swyddogol gan Mr Michael Binks. Cafwyd prynhawn hwyliog a llwyddiannus. Bu Sophie Rudge yn canu yn y prynhawn gydag Eirwen Hughes yn cyfeilio iddi. Swynwyd pawb gan ei llais ardderchog, a soniwyd am ei chysylltiad teuluol â hen deulu Frondeg.

Enillydd cwis y 'Missing Link' a lawnsiwyd yn y te uchod, oedd Mrs Marion Jones o Drefeurig.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elin Haf Huxtable, Y Ddôl Fach, ar ennill gradd B. Sc. 2:1 o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd UWIC mewn Chwaraeon ac Addysg Gorfforol, a phob lwc yn ei swydd newydd fel Swyddog Ieuenctid ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Caerffili, wedi ei lleoli yn Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni.



Seren Jenkins enillodd y pwyntiau mwyaf dan 16 oed yn yr Adran Fêl yn Sioe Llanelwedd. Fe'i gwelir gyda Bert Jones, Bow Street.



Sian James, Pen-banc, enillodd y Fedal Aur am y mwyaf o bwyntiau yn Adran Dechreuwyr Cakekraft yn Sioe Llanelwedd.



Elin Haf Huxtable



Lynwen ac Ifor Jenkins, Seren a Sian fu yn ddigon lwcus i fynd i Seremoni Agoriadol y Gêmau Paralympaidd yn Llundain.

### Bedydd

Yn ystod gwasanaeth y bore ar y 29ain o Orffennaf, bedyddiwyd Seren Therese Lockyer, 22 Y Ddôl Fach, ail ferch Jamie a Nerys. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parchedig R.Williams. Ar y 5ed o Awst bedyddiwyd eto gan y Parchedig R. Williams, Kyle Terence Couling, mab Nicole a Glyn Couling o Drefeurig (ond yn byw yn Littlehampton ar hyn o bryd).

### Claddedigaeth

Ar Awst 21ain, bu angladd Geraint Owen Evans, Plas Brogynin, a fu farw yn sydyn yn 49 oed. 'Roedd y gwasanaeth dan ofal yr Hybarch Hywel Jones a'r organydd oedd Eirwen Hughes. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Sant Ioan, ble daeth tyrfa luosog o ffrindiau a chydymaith i dalu eu teyrnged olaf.

Ac yna ar Awst 24ain, claddwyd gweddillion Mrs Valerie Hinge, Saron, Llandysul, eto gan yr Hybarch H. Jones. Gedy ddau fab sef Paul a Mark Hinge.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elin Haf Huxtable, Y Ddôl Fach, ar ennill gradd B. Sc. 2:1 o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd UWIC mewn Chwaraeon ac Addysg Gorfforol, a phob lwc yn ei swydd newydd fel Swyddog Ieuenctid ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Caerffili, wedi ei lleoli yn Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni.

Dymuniadau gorau hefyd i Sioned Huxtable a ddathlodd ei phen blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar a phob lwc iddi wrth gychwyn cwrs Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ym mis Medi.

### Glywsoch chi'r Clychau?

12 awr cyn i'r Gêmau Olympaidd gychwyn yn swyddogol ar 27 Gorffennaf roedd clychau Eglwys Sant Ioan ymhlith clychau nifer o eglwysi ledled Prydain a ganwyd i nodi yr achlysur am 8.12 y bore.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn

â Mr a Mrs Ceinion Jones a Sharon, 18 Maes Seilo ar golli brawd Valerie, sef Thomas William Pugh, 7 Ffordd Stanley, Aberystwyth yn ddiweddar;

â Doreen Sedgwick a'r teulu oll ar farwolaeth Tom ei gŵr yn ddiweddar. Roedd Tom yn gyfaill i bawb, ac yn fawr ei barch dros yr ardal gyfan;

ac â Hywel, Ger y Plas, a'r teulu a chysylltiadau oll, ar golli Geraint, brawd annwyl. Un o blant y pentre ac yn annwyl yng ngolwg pawb a'i adnabu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â theuluoedd yr isod sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

Mrs Mary Mansell, Ger-y-llan; Ron Parkes, Ger-y-llan; Cecil Whitehill, Ffordd Cwrt; Valerie Hinge, Llandysul; Derek Hoare, Ger-y-llan; Norma Wells, Maes-y-felin; ac Alun Evans, Tal-y-bont.

### Diolch

Dymuna Mairwen ddiolch i bawb a ddymunodd yn dda iddi ar ei phen blwydd yn 80 oed ym mis Mehefin ac hefyd am y cymorth a dderbyniodd oddi wrth ei theulu, cymdogion a ffrindiau yn ystod llifogydd mis Mehefin. Diolch yn fawr.

### Bingo

Cynhelir Bingo yn neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch ar 19eg o Hydref hefyd y 23ain o Dachwedd am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Eirian Morgan, Tan-y-bryn; Irene Taylor, Tan-y-Berth; Connie Evans, Gwawrfryn; ac i Bernard Edwards, Y Ddôl Fach; Vic Bolt, Ger-y-Llan; Glenys Thomas, Cwm Felin.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Connie Evans, Gwawfryn sydd yn yr ysbyty fel yr aiff y Tincer i'r wasg ac i Egryn Evans, Glan Ceulan ar ol cynfod byr yn Ysbytai Bron-glais a Threforus.

## parhad ... PENRHYN-COCH



### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ruth Ann Evans (Maesyfelin) o Brifysgol Aberystwyth am gael gradd Baglor yn y Celfyddydau mewn Astudiaethau Plentyndod gydag Anrhydedd, Ail Ddosbarth Rhan 1. Pob lwc i ti yng Nghaerdydd ar gwrs ymarfer dysgu PGCE.
Cariad mawr, Dad a Mam a'r teulu oll x

### Geraint Evans

Ag yntau o fewn tair wythnos i gyrraedd ei ben blwydd yn hanner cant fe drawyd Geraint yn wael ac fe fu farw o fewn ychydig ddyddiau. Roedd Geraint yn enedigol o Frogynin Fawr, yn fab i Dwynwen a Maldwyn Evans. Ar ôl mynychu ysgolion Penrhyn-coch a Phenweddig bu'n gweithio ar fferm Pen-cwm, a bu yno am dros ddeng mlynedd ar hugain. Roedd yn berson dibynadwy, gofalus a diwyd ynghyd



â bod yn gwmni hwyliog wrth ei waith. Gwireddodd ei freuddwyd o gael prynu fferm ei hun, sef Fuches Wen, Ponterwyd. Bydd yn chwith peidio ei weld yn gyrru heibio yn ei fan fach goch a'i fys bawd wedi ei godi i ddweud helo.

### Adroddiad Estyn

Cafodd Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhyn-coch ei chanmol mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn (swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ar 19 Gorffennaf yn dilyn arolwg a gynhaliwyd ar 14-17 Mai 2012. Prif ganfyddiadau'r Arolygwyr yw bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda a bod ei rhagolygon i wella hefyd yn dda.

Meddai' Pennaeth, Mr Emyr Pugh-Evans, 'Rwyf yn ymfalchïo yn yr Adroddiad hwn gan ei fod yn adlewyrchiad teg iawn o'r holl waith arbennig sy'n digwydd o fewn yr ysgol. Mae ymroddiad y staff a'r ymdeimlad o waith tîm yn amlwg yn cael effaith bositif ar holl fywyd yr ysgol. Mae fy niolch i'r tîm clòs o staff, a'r gwirfoddolwyr sy'n rhan bwysig o'r ysgol, am eu holl waith caled yn ein cefnogi i roi y cychwyn gorau posibl i'r disgyblion, ac i'r rhieni a'r Llywodraethwyr am eu cefnogaeth hwythau.'

Meddai Mr Sion Meredith, Cadeirydd y Llywodraethwyr, 'Rwy'n falch bod yr adroddiad hwn yn dangos bod disgyblion Ysgol Penrhyn-coch yn gwneud yn dda o dan arweiniad tîm cryf yn yr ysgol, a'u bod yn cael profiadau addysgu cyfoethog. Mae gan yr ysgol ethos o wella'n barhaus, a byddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiant yn dilyn yr arolwg hwn.'

Cyfeiriwyd yn yr Adroddiad fod perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio i'w llawn botensial. Nodwyd hefyd fod y disgyblion yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd a bod y profiadau dysgu a gyflwynir i'r disgyblion yn bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus. Nodwyd hefyd fod ansawdd yr addysgu ac asesu yn dda a gwelwyd fod yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o bartneriaid strategol, yn rieni ac o fewn y Gymuned.

Mae'r Llywodraethwyr a'r staff wrthi'n paratoi cynllun gweithredu ôl-arolwg i fynd i'r afael â'r nifer fechan o argymhellion a nodwyd.

Gellir gweld copi o'r adroddiad ar wefan yr ysgol neu gwefan Estyn http://www.estyn.gov.uk/

# Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch

Er holl dywydd ansefydlog yr haf fe gafwyd sioe lwyddiannus gyda'r safon yn uchel fel arfer. Diolch i'r ysgrifenyddes a'r pwyllgor am eu gwaith da fel arfer, ac i bawb arall a gefnogodd y sioe mewn unrhyw fodd. Diolch hefyd i Lywyddion y Dydd, sef Mervyn a Sue Hughes, Ger-y-Llan am eu rhan a'u cyfraniad yn ystod prynhawn y sioe.



Mervyn a Sue Hughes

**Dyma rai o brif enillwyr y dydd:**

Arddangosfa Gorau:
Llysiau – Fred Ralph, Penrhyn-coch
Ffotograffiaeth – Ella Jones, Bodorgan
Ffrwythau – Sylvia Morgan, Llanddeiniol
Cyffaith – Janet Jones, Tal-y-bont
Trefnu Blodau – Glenys Morgan, Penrhyn-coch
Arlunio – Megan Davies, Pantdrain

Pwyntiau uchaf:
Llysiau – Ceinion Jones, Penrhyn-coch
Blodau – Buddug Evans, Llanilar
Ffrwythau – Buddug Evans, Llanilar
Cyffaith – Lloyd Edwards, Penrhyn-coch
Coginio – Shân James, Penbanc
Gwinoedd – Megan Richards, Aberaeron
Cynyrch Llaethdy – Eleri Davies, Llanrhystud
Gwaith Llaw (A) – Rhian Davies, Llan-y-Creuddyn
Gwaith Llaw (B) – Dr Clive Williams, Penrhyn-coch
Ysgol Gynradd – Seren Jenkins, Kerry
Ysgol Uwchradd – Katie Boake, Salem

Cwpan Pwythwyr y Penrhyn:
Mavis McGauley, Penrhyn-coch

Anifail Anwes: Jenny James

Pac Brownies:
Lowri Walthers, Penrhyn-coch

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadai i Angharad Spence-Wilson, Fferm Aber-ffrwd, ar ei llwyddiant yn Arholiad Safon Uwch a dymuniadau gorau i ti yn y Brifysgol yn Nottingham.

### Gwersi yoga

Mae tua dwsin o bobl yr ardal wedi bod yn mynychu gwersi Yoga yng Nghanolfan Statkraft yn ystod yr haf. Bydd y gwersi yn ail ddechrau eto tua diwedd Mis Medi ac mae croeso cynnes i ragor i ymuno â ni.

### Ar y sgrîn

Gwelwyd nifer o drigolion Cwmrheidol ar y teledu yn ystod yr haf. Cafodd Vivian Morgan wahoddiad i lawnsiad llyfr Stuart Lloyd *Bwydo'r Bobol - Siop Tships Lloyd o Lanbed* (Gwasg Carreg Gwalch) ac 'roedd y rhaglen Heno yn dod yn fyw o'r bwyty yn Llambed.Bu y rhaglen Heno hefyd yn lawnsiad Bwcabws yng Nghwmrheidol a gwelwyd nifer o'r trigolion yn mwynhau taith gyntaf y bws yn yr ardal. Hefyd bu Cerys Burton, wyres Dei a Nancy, Ty-poeth yn cymryd rhan yn y seremoni o ganu clychau dros y wlad adeg agoriad swyddogol y gêmau Olympaidd a bu Teledu BBC yn ffilmio yr amgylchiad yn Eglwys Ysbyty Cynfyn.

### Llyfr Newydd

Mae Noragh Jones, Troedrhiwsebon, wedi ysgrifennu llyfr arall a fydd yn cael ei lawnsio yn Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth yn y dyfodol agos.Teitl y llyfr yw *The Art of Growing Old* ac mae Noragh wedi bod yn siarad a nifer o drigolion yr ardal am eu teimladau wrth fynd yn hŷn. Os am gopi o'r llyfr cysylltwch â Noragh.

### Sioe Capel Bangor

Bu y sioe yn un lwyddiannus iawn eleni eto gyda'r tywydd yn eithaf da yng nghanol yr haf eleni.Cafwyd cystadlu brwd ar y cae ac yn y babell. Llywyddion y Sioe eleni oedd Gareth a Mair Evans, gynt o Cefn Melindwr, a bu'r ddau yn brysur iawn drwy'r dydd. Diolch iddynt am eu cyfraniad hael i goffrau 'r Sioe. Mae Sian Laws, ysgrifenyddes adran y defaid. wedi penderfynu ymddeol felly os oes unrhyw un â diddordeb yn y swydd a wnewch chi gysylltu â Nerys neu Andrea mor fuan a phosib. Gan fod y Sioe dros ddeugain oed erbyn hyn mae nifer o'r Cwpanau wedi gweld dyddiau gwell ac mae angen rhai newydd. Os oes unrhyw un a hoffai gyfrannu cwpan cysylltwch â Wendy Davies, Goginan. Mae Pwyllgor y Sioe yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth i gadw yr olwynion i droi!

### Urdd y Benywod

Aethom ar ein taith gerdded flynyddol i goed Gogerddan ym Mhenrhyn-coch prynhawn Sadwrn Medi 8fed ac yna am baned a a sgwrs yng Nghaffi Newman yng Nhapel Dewi. Prynhawn bach delfrydol iawn.

### Digwyddiad

Capel Llwyn-y-groes: cwrdd Diolchgarwch nos Iau Medi 27ain am 7.00y.h. Pregethir gan Dr. Rhidian Griffiths Aberystwyth.

# CLARACH / LLANGORWEN

### Beiciwr o fri

Wedi iddo ennill y ras feics i blant ysgol yn yr Halfords Tour Series yn Aberystwyth ddwywaith yn olynol (2011 a 2012), penderfynodd Griff Lewis o Langorwen brynu beic rasio a mynd ati i gystadlu mewn rasus Cenedlaethol. Ar y 4ydd o Awst ym mhencampwriaeth Cymru ar faes Y Sioe Frenhinol yn Llanelewdd, daeth Griff yn ail gan guro nifer o feicwyr profiadol iawn. Wythnos yn ddiweddarach ar yr 11eg o Awst aeth ymlaen i gystadlu ym mhencampwriaeth Prydain yn Sain Tathan, y tro yma mewn dwy ras, sef y 'Time Trial' a'r ras dros 10 munud. Er ei fod yn cystadlu yn erbyn y goreuon o fewn ei oedran ym Mhrydain llwyddodd i ddod yn ail yn y ddwy ras a sicrhau ail safle yn y tabl, gyda'i ffrind Josh Tarling hefyd o Glwb Reidio Beics Gorllewin Cymru yn fuddugol.

Dymuniadau gorau i Griff yn y gamp, ac edrychwn 'mlaen i weld medal aur o gwmpas ei wddf mewn ychydig flynyddoedd.



Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Croeso

Croeso cynnes i Mr a Mrs Chris ac Allison Little, sydd wedi ymgartrefu ym Mrynteg, Blaengeuffordd o Ystumtuen. Mae Allison yn dysgu yr iaith ac yn awyddus i fod yn rhan o'r gymuned. Hyderwn y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Yr un croeso yn ôl i'r pentre i Ann Louise gynt o Bencoed, Pen-llwyn, i'w chartref newydd y gorffennwyd ei adeiladu yn ddiweddar; a'r enw a roddir arno yw Sŵn y Ci.

Croeso cynnes hefyd i Ioan Meirion o Ddyffryn Ardudwy, ei wraig Sian, a'r ferch fach Begw, sy'n ddwy oed. Maent wedi ymgartrefu yn Maes y glyn, ger Cyncoed. Pob dymuniad da ac hapusrwydd iddynt fel teulu, ac i bob un o'r newydd ddyfodwyr. Hyfryd eich cael yma i Ben-llwyn.

### Yn yr ysbyty

Bu Mrs Verina Williams, Cefnllidiart, yn yr ysbyty am gyfnod ym mis Awst. Cofion gorau iddi a dymuniadau am lwyr wellhad buan.

Wrth fynd i'r wasg, cafodd Mr Gordon Land, Stad Pen-llwyn ei daro yn sal, ac ar hyn o bryd mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Hyderwn y caiff driniaeth boddhaol a bydd yn ôl yn ei gartref yn fuan,

### Llongyfarchiadau

Pob hwyl i Rhydian Davies, Rhoslwyn, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau TGAU yn Ysgol Gyfun Penweddig.

Mae Angharad Edwards, Stâd Pen-llwyn, hefyd wedi pasio ei Lefel A, ac wedi ei derbyn i Brifysgol Cymru, Dewi Sant Y Drindod yn wreiddiol ) Hwyl i ti Angharad.

### Golffiwr o fri

Mae Aaron Bull, 'Marian', Blaengeuffordd yn aelod o dîm golff Dyfed, o dan 14 oed, pan ddaethant yn gyfartal â thîm Morgannwg ar y 10fed o Awst. Dal ati Aaron!

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Cawsom lawer o hwyl dros y gwyliau yn cwrdd lan fel aelodau'r Cylch am amrywiaeth o weithgareddau cyffrous. Roedd dyddiadur y 'Cylch Haf' yn cynnwys taith ar drên Cwmrheidol gan ddefnyddio'r gorsafau trên newydd yng Nghapel Bangor ac Aber-ffrwd; bore yng nghwmni Kara




Lewis, un o famau'r Cylch, a chrëwr cwmni 'Edu-Pets' sydd yn dod ag anifeiliaid mewn i'r dosbarth er mwyn addysgu plant trwy anifeiliad; taith i Lywernog i'w weld yn ei newydd wedd yn cynnwys cael ein ofni gan y glöwyr esgus a'i hwynebau du a'u pastwn. Taith i'r Borth a chael ein diddanu gan yr RNLI oedd nesaf; sesiwn beic a threic yn Ystrad a mynd am dro yn Nant yr Arian a mwynhau'r golygfeydd a'r parciau yno i gloi. Roedd y 'Cylch Haf' wedi ei drefnu gan Alice Briggs, un o famau'r Cylch, oedd hefyd, wedi rhedeg Clwb Celf a goruchwylio trosi y capel yn Aber-ffrwd i Stiwdio a Oriel yn agored i bawb fel rhan o Daith Celf Ceredigion 2012. Mae'r Daith Celf hon yn rhedeg tan Medi 16. Diolch Alice a gobeithio gei di bach o hoe yn awr. Yn awr bod y tymor ysgol newydd wedi dechrau dydi'r gwaith a'r hwyl ddim yn gorffen. Rydym yn edrych ymlaen fel Cylch at drefnu gwerthiant cist ceir ar y 29fed o fis Medi, diwrnod pacio bagiau yn Morrisons ar y 5ed o Hydref a Disgo Calan Gaeaf ar ddiwedd mis nesaf. Dewch i gefnogi yn llu.
Hoffem hefyd ddweud ffarwel a phob lwc i'r plant sydd wedi ein gadael y tymor hyn i fynd i'r ysgolion cynradd, sef Deri, Ana, Gwennan Mai a Nathan i Ysgol Pen-llwyn a Lexy a Henry i Ysgol Syr John Rhys. Croeso hefyd i'r plant newydd i'r Cylch sef Iris, Ffion a Swyn.

### Hir Wasanaeth

Mae pobl enwog yn y newyddion yn gyson, ac mae eu holl weithrediadau yn cael eu cofnodi ar ein cyfer. Yn wrthwyneb i hyn, mae ymdrechion aelodau cyffredin yn ein cymunedau, y



rheini sy'n gweithio'n ddidraul i gadw ein capeli, eglwysi, neuaddau pentref, sioeau amaethyddol, papurau bro a'r holl amryw o weithgareddau cymunedol eraill yn fyw ar ein cyfer ni i gyd yn aml yn digwydd heb ffwdan, sylw na chofnod. Medrwn alw'r bobl yma yn arwyr di glod ac mae Gwynfor Jones, Llwyniorweth Isaf, Capel Bangor, yn sicr yn un o'r arwyr di glod yma.

Ym 1955, y flwyddyn yr ymddiswyddodd Winston Churchill fel prif weinidog a lle daeth jîns tyn glas yn boblogaidd, fe benodwyd Gwynfor fel Ysgrifennydd Eglwys Dewi Sant Capel Bangor. Nid oedd e'n meddwl adeg hynny byddai Pumdeg Saith o flynyddoedd yn mynd heibio cyn iddo ymddeol o'r swydd yma.

Yn ystod amser Gwynfor fel ysgrifennydd cynhaliwyd digwyddiadau nodedig yn cynnwys agor a chysegriad y fynwent newydd gan Esgob Tyddewi, dathliad canmlwyddiant a hanner yr Eglwys ym 1987, pan ddaeth Esgob Tyddewi i bregethu

unwaith eto. Adeiladwyd yr Eglwys yn yr 1830'au ac fe'i hagorwyd ym 1837 trwy gymorth tanysgrifiadau pobl leol. Yn awr mae Cadw wedi cofnodi'r Eglwys, Neuadd yr Eglwys a'r tŷ sydd ynghlwm iddo fel adeiladau rhestredig. Maent wedi gwneud hyn gan fod yr eglwys yn enghraifft anghyffredin o ddyluniad eglwys glasurol gyda th mewn sydd mewn cyflwr eithriadol o dda a'r neuadd a'r tŷ ynghlwm gan eu bod yn enghraifft nodedig o ysgol a thŷ athro o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, heb lawer o newidiadau iddo ers y cyfnod yma. Mae adnewyddiadau helaeth wedi digwydd yn y cyfnod yma, sydd wedi canlyn gyda'r Eglwys wedi ei pheintio yn wyn dan orchymyn pensaer, ac mae hyn wedi bod yn destun trafod a gofid gan ei fod yn anodd ei chynnal, ac yn ymofyn cryn dipyn o ymdrech gan lafur gwirfoddol.

Hoffai cynulleidfa Eglwys Dewi Sant, ar ran y gymuned gyfan gydnabod yn gyhoeddus wasanaeth anferthol Gwynfor am yr holl flynyddoedd yma ac i gofnodi ein diolch a'in gwerthfawrogiad trwy'r papur cymunedol yma. Yn ogystal â'i waith fel Ysgrifennydd bu Gwynfor hefyd yn Warden Eglwys am ddeuddeng mlynyedd. Bu hefyd yn Gynghorwr Cymunedol a Sirol, ac er yr holl gyfrifoldebau beichus yma, fe barhaodd gyda'r gwaith anhuddol o wneud cofnodion, llenwi ffurflenni ac ati sy'n waith diddiwedd ar gyfer ysgrifenyddion ymhob sefydliad.

Yn ei ffordd dawel ddiymhongar, mae Gwynfor wedi cysegru ei wasanaeth i Eglwys Dewi Sant ac wedi helpu cadw'r eglwys yn fyw yng Nghapel Bangor, sy'n bwysig i'r efengyl a'r gymuned. Rhaid rhoi diolch am wasanaeth fel hyn, gan bobl fel Gwynfor, oherwydd dyma'r rheswm pam mae Eglwys Dewi Sant yn agored heddiw ac yn le lle mae pawb yn sicr o gael croeso cynnes iawn.

*Eluned Hughes, Brynmeirion*

## Graddedigion

Ym mis Gorffennaf, enillodd Angharad Watkins, wyres Mr a Mrs Eilir Morris, Glennydd, Pen-llwyn, radd Doethur mewn Athroniaeth o Brifysgol Aberystwyth. Bu Angharad yn ymchwilio i ddelwedd yr aelwyd yn y nofel Gymraeg o 1960 hyd at 2008, dan gyfarwyddyd Dr Mihangel Morgan a'r Athro Marged Haycock o Adran y Gymraeg.

Mae Angharad bellach yn gweithio fel Golygydd Comisynu yng Ngwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Hefyd, James Lavers, gor ŵyr y diweddar Mr a Mrs Ryder Evans, Brynrheidol, Blaengeuffordd, a raddiodd yn Saesneg o Brifysgol Aberystwyth. Gwelir James yn y llun a dynnwyd ar ddiwrnod y seremoni raddio ar Orffennaf 13eg, gyda'i fam a'i dad Siân ac Anthony Lavers o Newcastle upon Tyne.

Llongyfarchiadau, a phob dymuniad da i'r dyfodol, i'r ddau ohonynt.

## Marwolaethau

Trist yw cofnodi y rhai canlynol a hunodd yn ystod yr hâf.

Megan Rowlands, Dolypandy/ Un o Aberhonddu yn wreiddiol, ac yn nyrs yn ôl ei galwedigaeth. Ymddeolodd i Ddolypandy o Ysbyty Bromyard, lle y bu yn fetron. Roedd yn gymydog da ac yn barod iawn ei chymwynas bob amser. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Arberth. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i merch sydd yn byw yn Drefach Felindre.

Hefyd mam Mrs Verina Williams, Cefnllidiart, sef Mrs Medina Jones, New Inn, Nantmel. Bu ei hangladd yn Dolau, Nantmel ar 24ain o Awst. "Cledd a mîn yw colli mam"

Cydymdeimlwn â Verina, yr ŵyrion a'r gorŵyrion.

Eto, tad Mrs Eleri John, Fferm Cyncoed, ar Awst y 9fed, Mr John Morgan Thomas, a hunodd yng nghartref Alltymynydd yn sydyn ac annisgwyl. Roedd gynt o Gefnllanio, Tregaron. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu yn eu colled a'u siom.

Trist oedd clywed am farwolaeth Ann Evans, gynt o Ben-llwyn, a oedd ar hyn o bryd yn byw yn Afallen Deg, Bow Street. Cofiwn a chydymdeimlwn yn fawr â'i thad, Mr Joe Evans Dolypandy, ei brawd John a'i phlant Leilla a Keiran.

Daeth y newydd am farwolaeth Mr Tom Sedgwick, Frondeg, Gelli Angharad, a oedd yn frawd yng nghyfraith i Mrs Eirwen Sedgwick, Rheidol House, Blaengeuffordd. Cofiwn wrth bassio ei dŷ am yr olygfa o flodau a welir bob amser. Estynnwn yr un cydymdeimlad i Eirwen yn ei cholled, hithau.

Hefyd Mrs Nia Lewis, Ystrad, Blaengeuffordd a gollodd ei hewyrth yn ddiweddar, Mr John Jones o Plasgwyn Llangynyw. 'Roedd yn frawd i'w thad. Yr un cydymdeimlad i deulu Nia yn ogystal.

*Boed i chwi oll yn eich hiraeth dderbyn bendith oddi wrth yr unig un a all eich cysuro, sef Duw ein Tad nefol.*

## Merched y Wawr Melindwr

Unwaith eto mae'n amser am weithgareddau Merched y Wawr a nos Fawrth Medi 4ydd croesawodd Heulwen Lewis, y Llywydd, pawb yn gynnes i Neuadd y Pentref. Ein gŵr gwadd oedd Michael Morgan o ardal Felin-fach, sydd yn aelod o Urdd Sant Ioan ers blynyddoedd a bu yn dangos i ni nifer o wahanol ffyrdd i achub bywyd mewn argyfwng. 'Roedd yn ddiddorol iawn ac yn medru siarad ar bwnc difrifol mewn ffordd hwylus iawn. Diolchwyd iddo gan Beti Daniel; gwnaethpwyd y te gan Llinos Jones a Delyth Davies ac mi enillwyd y raffl gan Margaret Stephens.



James Lavers



Angharad Watkins

# BOW STREET

Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00
http://www.capelygarn.org/

*Medi*
23 Harri Parri
30 10.00 Oedfa Gomisiynu Eleri Barder, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid, Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion ym Methel, Stryd y Popty.
5.00 Goronwy Prys Owen

*Hydref*
7 Richard Lewis (yn Noddfa) John Tudno Williams
14 Oedfa'r Ofalaeth
21 Bugail
28 J. E. Wynne Davies

Noddfa
*Hydref*
7 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Y Garn yn Noddfa.
14 Oedfa Undebol yr Ofalaeth (Diolchgarwch y Plant) ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00.
21 Oedfa am 2.00. Y Parchg. Ifan Mason Davies. Cymundeb.
28 Uno yng Nghartref Tegerddan am 3.30.



Priodwyd Meleri Wyn, Llanfihangel Genau'r-glyn a Matthew Flint, Uttoxeter, yng Nghapel y Garn, Bow Street ar ddydd Sadwrn 1 Medi gyda'r wledd yn dilyn yn Aberaeron. Mae Meleri ar staff S4C a Mathew yn ddylunydd yn Llywodraeth Cymru a bydd y ddau yn symud i'w cartref newydd yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau i'r ddau.



Enillodd Mrs. Rose Chaplain un o drigolion Cartref Tregerddam nifer o wobrwyon am ei gwaith celf yn ddiweddar. Enillodd ddau gyntaf, un ail a chwpan am Yr Arddangosiad Gorau yn Sioe Tal-y-bont. Enillodd hefyd ddau gyntaf ac un ail yn Sioe Rhydypennau. Llongyfarchiadau mawr iddi.

### Clwb CIC

Cynhelir noson agoriadol Clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn Festri'r Garn, nos Iau 11eg Hydref o dan arweiniad Eleri, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion am 7.00.

### Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Gwen Lewis yn 100 oed yng Nghartref Tregerddan ar 9fed o Orffennaf. Cydymdeimlwn â'i nithoedd Marian a Lynne ac â Gareth William a Gaenor Jones, Rhian a Llŷr.

### Diolch a gwerthfawrogiad

Carem ddiolch eto eleni yn gynnes iawn i bob un a fu'n casglu o ddrws i ddrws. Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn pob ymdrech unigol yn ein hymgyrch. Y cyfanswm terfynol oedd £2369.21. Pwyllgor Cymorth Cristnogol Bow Street, Llandre a'r cyffiniau

### Gwella

Ar ôl cyfnod o salwch mae'n dda gweld y cyfaill Llew Mason, 51 Tregerddan, yn dechrau mynd a dod yn ein plith unwaith eto. Ein cofion ato a'n dymuniadau da.

### Enillydd

Llongyfarchiadau gwresog i Vernon Jones, Gaerwen, ar ennill y gystadleuaeth cyfansoddi baled ar y testun 'Y Ffair' yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Marian Beech Hughes, Maes y Garn, ar ddathlu pen blwydd arbennig ganol Medi.

### Myfyriwr gorau IBERS

Llongyfarchiadau i Manod Williams gafodd ei wobryo fel myfyriwr amaethyddol gorau IBERS, Prifysgol Aberystwyth eleni. Bu Manod yn fyfyriwr ar gwrs gradd anrhydedd mewn Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid rhwng 2009-12 gan gwblhau gradd Dosbarth I. Derbyniodd ei wobr yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Cyn dechrau yn y Brifysgol, bu Manod yn cynorthwyo Rowland Rees, Brysgaga, ble cafodd brofiad ymarferol gwerthfawr iawn ac adeiladodd ar y profiad hyn drwy gynhyrchu gwaith academaidd o'r safon uchaf yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr. Yn sgîl ei lwyddiant dyfarnwyd Ysgoloriaeth Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol iddo er mwyn cwblhau Doethuriaeth yn ogystal a datblygu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran dros y pedair blynedd nesaf. Testun ei waith ymchwil fydd cloffni mewn gwartheg godro, un o'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant llaeth a lles buchesi yn fyd-eang. Amcan y gwaith fydd gwerthuso sustem awtomatig ar gyfer darganfod gwahanol fathau o gloffni drwy ddefnyddio'r System Darganfod Cloffni StepMatrix (Boumatic, Madison Wisconsin, UDA) ar fferm y Brifysgol yn Nhrawsgoed. O dan nawdd yr ysgoloriaeth bydd Manod yn cwblhau gradd MSc mewn Gwyddor Anifeiliaid cyn mynd ymalen i gwblhau PhD.

### Diolch

Dymuna Gaenor, Gareth a ‘r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad wedi colli Gwen yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at Ffrindiau Cartref Tregerddan er cof amdani.

### Holi’r Arglwydd Elystan-Morgan

Nos Wener 9 Tachwedd am 77.30 ym Morlan, Morfa Mawr,Aberystwyth - fel rhan o Ŵyl Lyfrau Morlan - bydd yr Arglwydd Elystan-Morgan yn cael ei holi gan Dylan Iorwerth yn dilyn cyhoeddi ei hunangofiant. Tocyn: £5 ar gael o Morlan 617996 Am fwy o fanylion am Ŵyl Lyfrau Morlan gwelir http://www.morlan.org.uk

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Robert Pugh, 3 Maes Ceiro, ar ddathlu pen blwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Heb ddatgelu gormod medrwn dybio y byddwn yn gweld Robert yn gwneud mwy o ddefnydd o`r bysiau yn y dyfodol!



Mae gwaith amser hamdden Kitty Evans, Tanyfoel, Y Lôn Groes, yn rhoi pleser a mwynhad mawr i plant bach amddifad yn Ghana. Mae Kitty wedi gwau dwsinau o deganau meddal yn ystod y flwyddyn – fel y gwelir yn y llun, yna mae gwirfoddolwyr yn rhannu’r teganau bach i’r plant bach yn Ghana. “Volunteer for change” yw enw’r elusen ac mae fwy o wybodaeth ar http://www.volunteer-for-change.com



Siec o £300, y cyfraniadau a gasglwyd er cof am Miss Gwen Lewis yn cael ei gyflwyno i Iwan Davies, Cadeirydd Ffrindiau Cartref Tregerddan ac Elaine Thomas , rheolwr y cartref, gan Gaenor Jones.

### Geni ŵyr

Llongyfarchiadau i Gareth William a Gaenor Jones ar ddod yn fam-gu a thaid am y trydydd tro. Ganwyd mab - Math Aran - i Llinos a Llŷr yn Wrecsam ar Fedi 15.

### Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Stephen Pugh ac Amy Davis ar eu dyweddiad. Y mae Stephen yn fab i Robert a Felicity Pugh, 3 Maes Ceiro, ac y mae Amy ac yntau yn byw ac yn dysgu yng Nghaerloyw. Pob dymuniad da iddynt.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Aled ac Amanda Lloyd Jones, Caerdydd ar enedigaeth Mali Haf ar Awst 3ydd - chwaer fach i Ellie Mai a wyres arall i Gwen Lloyd Jones, Lasynys.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Brian Sansbury a’r teulu, Pant y Berllan, ar farwolaeth brawd Brian - Dr Mike Sansbury yng Nghaeredin ar 29 Mehefin.

Bu Mike yn feddyg yng Ngwynedd, yr Almaen ac yn feddyg teulu yng Nghanolfan Iechyd Prifysgol Abertawe rhwng 1982 a 2009 pan ymddeolodd a dychwelyd i Gaeredin lle bu’n fyfyriwr.

â Maureen a Noel Morgan, Brynmeillion, ar farwolaeth tad Maureen, John Daniel Jones, ddydd Gwener, 3 Awst.

ac â’r Cynghorydd Paul Hinge, Tregerddan, a’r teulu, ar farwolaeth mam y Cynghorydd - Valerie Hinge - yn Llandysul.




### Dyn y mêl

Llongyfarchiadau calonnog i Mr Bert Jones, Glan-nant ar ennill dros ugain gwobr, gan gynnwys medal, cwpan a thlws gwydr am ei fêl yn Sioe Llanelwedd eleni, ynghyd â gwobrwyon a chwpannau yn sioeau Amwythig, Tywyn a Thal-y-bont.

Un o fechgyn yr ardal yw Bert. Man ei eni a’i fagu oedd Ty’n Rhos Fach – yn un o 12 o blant. Da nodi bod nifer sylweddol o’r teulu yn dal i fyw ym mhentrefi Bow Street a Llandre. Erbyn hyn, mae ef a’i briod, Mattie, hithau, yn chwarae rhan bwysig ond tawel yn y busnes mêl. Mae eu gardd yn wledd i’r llygaid – lawnt hyfryd, blodau a llysiau di-ri, a chwbiau gwenyn, wrth reswm. Perffeithydd diymhongar yw Bert.

Os glywsoch chi fwmian o gwmpas y blodau yn eich gardd yn ystod yr haf, efallai mai rhai o’r tua 100,000 o wenyn y mae Bert a Mattie yn eu cadw oeddynt, yn casglu’r neithdar cyn dychwelyd i’r cychod sydd o gwmpas yr ardal. Rhwydd hynt a phob llwyddiant i’r ddau yn y dyfodol.

## BOW STREET

# Teyrnged: Tegwen Alwena Pryse

Er i'r driniaeth i galon Tegwen yn Ysbyty Treforys fod yn llwyddiant bu farw'n annisgwyl ymhen deuddydd ar fore Sul 24 Mehefin, yn 78 oed. Roedd hynny'n siom a thristwch i Elwyn a'i deulu ac i ninnau ei chyfeillion. Ond yng nghanol y chwithdod mae'n dda cael diolch amdani fel gwraig Elwyn er 1954; mam Maldwyn ac Eleri; mam-gu Eilir a Meleri; chwaer Leonard; a ffrind i laweroedd. Ganed Tegwen yn Ystradmeurig yn ymyl Ysgol a Choleg yr enwog Edward Richard, yn ferch i Griffith a Nansi Ellis, y tad yn Gardi a'r fam o Ben-y-bont-fawr ym Maldwyn. Symudwyd i Drefechan ac yna i Goedlan y Parc yn Aberystwyth pan oedd yn ifanc a bu'i thad yn gweithio i'r Cyngor yn y dref ac yn Oruchwyliwr y lladd-dy.

Mynychodd Tegwen Ysgol Gynradd Heol Alecsandra a hi oedd yr unig yn ei blwyddyn i eistedd yr arholiad i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Gymraeg. Roedd yno ddwy flynedd o'm blaen ac yn ffrind i Mair fy nghyfnither a chofiaf amdanynt yn aelodau selog o Gôr Plant Myfanwy Jenkins, yn Ysgoldy Tan-y-cae, ac yn disgleirio fel deuawd mewn cyngherddau. Bu'r côr yn cystadlu'n llwyddiannus yn lleol a chenedlaethol gan enill yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau, 1949. Yn ddiweddarach roedd y ddwy yn aelodau o barti Odlau Rheidol dan arweiniad Aneurin Jenkins-Jones yn yr Aelwyd. Derbyniodd Tegwen hyfforddiant gan y cerddor W R Allen, organydd nodedig yn y dref'. Roedd wedi bod yn aelod o Gôr Eglwys Sant Mair er pan oedd yn bump oed a bu'i chyfnod yno o gymorth mawr iddi fel gwraig gweinidog.

Ar ôl gadael Ardwyn bu Tegwen yn gweithio fel clerc i'r Cyngor Sir ac yn fuan cyfarfu ag Elwyn oedd yn fyfyriwr yn y Coleg Diwinyddol a hynny pan oedd yng nghwmni Mair yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn festri'r Tabernacl. Priodwyd ym 1954 a dechrau cyd-weinidogaethu yn eglwysi Rhagluniaeth, Rhiwabon; Siloh, Johnstown a Moreia, Rhosllannerchrugog. Symud ym 1959 i Lanrhaeadr ym Mochnant i wasanaethu pump eglwys, i lafurio fel cyd-arwerinyddion Aelwyd yr Urdd, ac i fagu'i hunig fab Maldwyn. I Lanymddyfri ym 1964 ac ymhen deng mlynedd dychwelyd i Geredigion i eglwysi Gerlan, y Borth; Nasareth, Tal-y-bont; Rehoboth, Taliesin a'r Graig, Ffwrnes. Gwahoddodd Peg Owen Tegwen i fod yn aelod o Wythawd y Borth a bu mynd ar y canu am flynyddoedd. Darlledwyd droeon, unwaith yn canu tonau William Llewelyn Edwards.

Ychwanegwyd y Garn, Madog a Chwmerfin at yr ofalaeth ym 1984 a maes o law ymgartrefwyd yn Isgarn – enw tôn gan W Ll Edwards – ac aros yno 'rôl ymddeol wedi oes o gyd-weinidogaethu'n llawen. Pan ddychwelodd Gwenda a minnau i'm hen gartref ail gydiwyd yn y cyfeillgarwch a da oedd cael seiadu'n gyson a sôn am eisteddfota a charafanio ymhlith pethau eraill. Roedd Tegwen wedi sgrifennu ambell gerdd ac emyn oedd yn bwysig iddi yn ei llyfr emynau, yn cynnwys y ddau emyn a ganwyd yn ei hangladd, geiriau'r Pêrganiedydd o Bantycelyn, 'Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar' ar 'Cwm-Nedd', J T Rees; ac ar 'Lausanne', emyn a gyfieithwyd gan Nicander, emyn-cyffes Tegwen y gantores a'r Cristion:

Hoffi'r wyf ddatseinio moliant
Yn dy dŷ ag uchel lef -
Arglwydd grasol, gwna ni'n addas
I'th glodfori yn y nef.

Arweiniwyd y Gwasanaeth o Ddiolchgarwch am Fywyd a Gwaith Tegwen, yn y Garn ar 29 Mehefin, gan Wyn Morris y gweinidog, a nododd fod ganddi galon i wrando, i werthfawrogi ac i weithio. Cynorthwywyd y gweinidog gan y Parchn R W Jones, Richard Lewis, W J Edwards, Andrew Lenny a Leslie Jones, ac yr oedd 10 gweinidog arall yn bresennol. Roedd yn briodol mai'i ffrind oes, Mair Evans oedd wrth yr organ. Ymhen rhai dyddiau daearwyd llwch Tegwen ym medd rhieni Elwyn ym mynwent Ysbyty Ystwyth. Wrth ddiolch am gael ei nabod a chael fel eraill fy nghyfoethogi ganddi rydym yn anfon ein cofion at Elwyn a'r teulu.

*W. J.*

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

## DOLAU

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Mark Leggett, Nantlais, ar ei ddyweddiad â Jenna Smith ganol fis Gorffennaf.

### Penodiad

Llongyfarchiadau i Dr Huw Williams, Sŵn yr Awel, ar ei benodi yn ddarlithydd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn athroniaeth dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd Huw yn hyfforddi ac yn hybu athronyddu trwy gyfrwng y Gymraeg ar wastad Addysg Uwch yng Nghymru. Bydd yn gweithio o Brifysgol Caerdydd.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Talybont, Ceredigion, SY24 5ER
Bwyty a Bar Newydd!
Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn
Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn
Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9
Galwch heibio!
01970 832 555
www.gwestyllewdu.com

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
DIGWYDDIADAU MEDI/HYDREF:
- C21 yn Morlan (7.30, 26 Medi)
- Bwrw Bol – trafodaeth ar bwnc moesol cyfredol (7.30, 3 Hydref)
- C21 yn Morlan (7.30, 10 Hydref)
- *Y Canpunt* – cyflwyniad Cwmni Morlan o ddrama Kate Roberts (20 & 21 Hydref)

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

# MADOG / DEWI / CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
2.00
*Medi*
23 Harri Parri
30 Goronwy Prys Owen

*Hydref*
7 John Tudno Williams
14 Oedfa'r Ofalaeth am 10.00 yn y Garn
21 Bugail
28 J. E. Wynne Davies

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â
Clarissa, Vaughan ac Emily a'r teulu ar golli priod, tad a thad-cu annwyl. Bu Dr David Lewis yn arbenigwr plant ac yn uchel fawr ei barch yn Ysbyty Bron-glais am nifer fawr o flynyddoedd.

Tegwyn ac Aldwyth, Rhos-goch a theuluoedd Gwynfa, Cefn-llwyd ar golli modryb Mrs Dilys Evans, Aberystwyth.

Doreen Sedgwick, Frondeg, ar golli ei phriod Tom Sedgwick, tad a thad-cu i Mark a Jayne, Lily ac Abbey, Gelli Aur.

### Bedydd

Yng Nghapel Madog ar Orffennaf 15fed, bedyddiwyd Gruffudd Alwyn ap Llywelyn – mab bach Sioned a Llywelyn Evans, Rhydyceir. Gwasanaethwyd gan y Parchg Wyn Rh. Morris.

### Pen blwydd

Pen blwydd hapus i David Evans, Murmur y Coed, ddathlodd ei ben blwydd yn 80 oed; hefyd Rhys Evans, Y Fronfraith, ar ddathlu ei ben blwydd yn 21ain.

### Llongyfarchiadau i

Elin Wallace, Troedrhiw ar ei llwyddiant yn arholiadau TGAU ac i Gwilym Simms-Williams, Gwarcwm, yn arholiadau Lefel A. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

ac i'r rhai fu'n llwyddiannus yn y sioeau lleol, teulu Deilyn, Aneurin a Martha Rowlands a Huw Jones.

ac i Rhys Evans am ennill cwpan am y cneifiwr gorau gyda pheiriant yn yr adran agored

ac i Erwyd Howells am ennill nifer o gystadlaethau yn y treialon cŵn defaid.

### Ar Radio Cymru

Yn ystod mis Awst clywyd Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog, yn sgwrsio ar Radio Cymru mewn cyfres o dair rhaglen "Erwyd ar Grwydr". Cychwyn y daith ym Mhonterwyd ac ymlaen i Gwmystwyth, Tregaron a Llanddewibrefi.

### Priodas

Yn eglwys Llanbadarn Fawr yn ystod mis Awst priodwyd Gareth Evans, Murmur y Coed, a Susan O'Driscol o Aberteifi. Pob dymuniad da a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol yn Aberteifi.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Wyn a Clare Morris, Plas y Fronfraith, ar enedigaeth merch Myfi Grug; chwaer i Ifan ac wyres i Defi a Gwyneira Morris.

### Croeso

Croeso i Robert Radcliff o Lanidloes sydd wedi symud i'r Gorlan, Cefn Llwyd.



### Rhaglen ddyddiol

Cyhoeddodd Radio Cymnru y bydd gan Iola Wyn raglen newydd o'r de-orllewin, stiwdio Caerfyrddin, am 10.30 bob bore o'r wythnos heblaw am benwythnosau o'r hydref ymlaen. Cynhyrchir y rhaglen hon gan gwmni annibynnol Telesgop.



Rhys Evans

### Panel Dinasyddion Ceredigion – Cyfle i ddweud eich dweud!

Mae'r Cyngor, yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd eisiau clywed eich barn am wasanaethau lleol a materion yn eich ardal chi. Byddwch yn derbyn 3 arolwg y flwyddyn drwy e-bost neu drwy'r post, ac ar ôl pob un ymarfer ymgynghori, bydd un person lwcus yn derbyn £50!

Os hoffech ddod yn aelod Panel, cysylltwch â Hannah Hyde drwy e-bost ar hannah.hyde@dyfed-powys.pnn.police.uk neu galwch 01267 226262 i ofyn am ffurflen recriwtio. Hefyd, gallwch lenwi'n ffurflen ar-lein ar http://www.snapsurveys.com/swh/surveylogin.asp?k=129726537408.

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street



# TREFEURIG

### Pen blwydd arbennig

Dymunwn yn  dda i Dr Angharad Fychan, Glanrafon, ar ddathlu pen blwydd arbennig ddiwedd Awst. Dim ond ugain mlynedd i fynd cyn cael teithio am ddim ar y bws!

Aneirin Hughes fydd yn cymryd rhan Gwynfor Evans yn y portread ohono fydd ar S4C yr hydref yma. Mae Gwynfor, a ysgrifennwyd gan yr Archdderwydd T James Jones, yn ail-greu blwyddyn dyngedfennol ym mywyd Gwynfor Evans. Ym mis Medi 1979, fe wnaeth Llywodraeth Geidwadol newydd Margaret Thatcher dro bedol trwy gyhoeddi na fyddant yn sefydlu sianel deledu Gymraeg er gwaethaf addewid i wneud hynny yn eu maniffesto. Arweiniodd hyn at benderfyniad Gwynfor Evans i gyhoeddi ympryd hyd farwolaeth ac o fewn 12 mis, roedd y Llywodraeth wedi cyhoeddi tro pedol arall ac wedi penderfynu sefydlu gwasanaeth teledu S4C.



Linda Penbryn yn cael ei hurddo yn Steddfod Bro Morgannwg.

## Gŵyl Pan Geltaidd (2–7 Ebrill 2013)

O'r 9fed hyd y 15fed o Ebrill 2012 cynhaliwyd yr Ŵyl Ban Geltaidd (Gweler http://www.panceltic.ie/) yn nhref Ceatharlach (Carlow) yr Iwerddon. Cafwyd Gŵyl arbennig iawn eto eleni gyda'r chwe gwlad Geltaidd yn bresennol a'r dref yn fwrlwm o weithgareddau.

Roedd nifer fawr o Gymru yno, rhai wedi teithio eu hunain a gwneud eu trefniadau personol, rhai wedi dod ar deithiau a drefnwyd gan Gwmnïau Bysiau masnachol a thua 90 wedi dod trwy drefniant **Mudiad Pan Geltaidd** (**Cymru**).

Sefydlwyd y Mudiad hwn gan Tegwyn Williams, Llanelwy tua 35 mlynedd yn ôl a mae wedi symud ymlaen o nerth i nerth tros y blynyddoedd yn trefnu gweithgareddau Cymru yn yr Ŵyl, a hefyd yn trefnu bysiau a darpariaeth drylwyr ar gyfer yr ymwelwyr, a Tegwyn yn dal yn rhan amlwg o'r trefniadau.

Yr hyn a gynigiwyd i'r rhai a aeth gyda'r **Mudiad Pan Geltaidd** eleni oedd y daith bws (un o'r Gogledd ac un o'r De) i Ceatharlach yn cynnwys cost y Fferi, tocynnau i holl weithgareddau yr Ŵyl a llety o'r safon y dymunwch ei gael, ar gost am y cyfan eleni oedd - gyda Hunan Arlwyaeth (Hostel) £186 y person, Llety Gwely a Brecwast £323 y person, mewn Gwesty moethus lle y cynhelir y rhan fwyaf o weithgareddau'r Ŵyl £423. Yn ystod y cyfnod hefyd gan fod y bysiau yno trefnir teithiau ychwanegol i'r sawl a ddymuna am brisiau rhesymol iawn. Eleni aethpwyd i Waterford, Mynyddoedd Wicklow, y Gerddi Hynafol a Dulyn.

Fel y cyfeirwyd roedd bys o'r Gogledd yn cychwyn o Lanelwy a bys o'r De yn cychwyn o'r Tymbl. Eleni bu yn rhaid gwrthod rhai am nad oedd digon o le ar y bysiau, ac fe hoffai'r mudiad drefnu Bws o'r Canolbarth y flwyddyn nesaf yn cychwyn o Fachynlleth os oes digon o ddiddordeb. Yn Ceatharlach y bydd yr Ŵyl eto y flwyddyn nesaf a'r cyfnod yn debyg i eleni a'r gost gobeithio.

Gan fod Tegwyn, Arwel ac Emyr, Swyddogion y Mudiad yn cychwyn ar y trefniadau tua mis Medi, os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r daith o'r Canolbarth y flwyddyn nesaf rhowch wybod i Arwel Roberts, Fachwen, Ffordd Rhyl, Rhuddlan. Ffôn – 01745 590869, arwellroberts@tiscali.co.uk neu Hedd Bleddyn, Brynpeiran, Penegoes, Machynlleth. Ffôn – 01654 703876, e-bost – heddbleddyn@btinternet.com neu Robin O. Williams, Peniarth, Craig y Fron, Y Bala, Ffôn – 01678 520940.

Os bydd bws o'r Canolbarth bydd yn ofynnol i'r rhai o Ogledd Ceredigion ddod i Fachynlleth yna bydd yn casglu ar ei daith trwy Faldwyn a Meirion a hefyd rhai o Arfon a Môn os bydd angen.

TACSI EDDIE
BWS MINI, CEIR SALŴN
LLAWR IS AR GYFER CADAIR OLWYN
NEU SGWTERS SYMUDOL.
YN ARBENIGO MEWN
TRAFNIDIAETH I'R ANABL
01970 828 642
07790 961 226
07800 500 481
tacsieddie@hotmail.co.uk

y tincer

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul,
llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID
TEW
eu hangen i'w lladd
mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

# Taith i Tonga



Bron i ddwy flynedd ar ôl i fi a fy ngŵr, Polu, briodi yn Aberystwyth, dychwelon ni i Tonga i ymweld â'i deulu. Roeddwn i wedi bod i Tonga ddwywaith o'r blaen, ond roedd yr ymweliad hwn yn wahanol gan fod nifer o aelodau fy nheulu i yn dod gyda ni; Dad, fy chwiorydd Esyllt a Lois, fy mrawd Gwion, a gŵr Esyllt, Ben. Ond roedd hi'n daith hir: hediad o 24 awr o Lundain i Auckland, dau ddiwrnod yn Auckland i gysgu a cheisio cael gwared o'r *jet-lag*, yna hediad i brif ynys Tonga, ac un hediad olaf i ynys Vava'u!

Cafwyd syrpreis ar ôl cyrraedd tŷ fy rhieni-yng-nghyfraith wrth i ni weld eu bod nhw wedi paratoi gwledd i ni, oedd wedi ei osod ar fwrdd hir ar y feranda; bwrdd roedd ewythr Polu wedi ei wneud yn arbennig ar gyfer yr achlysur ... ac wyth cadair! Roedd yr arlwy'n cynnwys mochyn wedi ei rostio, *'ota ika* (pysgod amrwd mewn sudd lemwn a llaeth cneuen goco), iam a taro (o deulu'r daten!) wedi eu coginio yn yr *'umu* (ffwrn dan y ddaear), pysgod wedi eu ffrïo, fersiwn Tonga o *chop suey*, melon ddŵr a papaia. Gyda pawb dal yn hanner cysgu ar ôl cymaint o deithio, a nawr yn llawn dop hefyd, aethom ni â fy nheulu i'r hostel ble roeddent yn aros i gael nap haeddiannol! Roeddwn i a Polu'n aros yn nhŷ ei rieni gyda'i rieni, a'i chwaer a'i gŵr newydd. Dydy hi ddim yn arferol i bobl ifanc fyw ar eu pen eu hunain ar ôl priodi – mae cyfrifoldeb arnynt i barhau i gynorthwyo'r teulu. (Ond dwi'n siwr fod Mam a Dad yn falch nad ydyn ni'n dilyn y traddodiad yma ac yn dal i fyw gyda nhw ym Maes Afallen!)

Mae Vava'u yn grŵp o 61 o ynysoedd, a'r boblogaeth yn tua 17,000, ond nid oes pobl yn byw ar bob ynys. Dywedir fod tua 10,000 o bobl yn byw yn y brif dref, Neiafu. Gellir crynhoi prif bwyntiau'r ymweliad gan ddefnyddio'r geiriau canlynol: bwyd, rygbi, capel, hwylio.

## Bwyd

Yn ogystal â'r wledd a ddisgrifir uchod, trefnwyd gwledd bellach ar ein cyfer ni, a daeth nifer fawr o'r perthnasau i'r tŷ i'n gwylio ni'n bwyta, yna i rannu'r bwyd oedd dros ben (roedd llawer o fwyd dros ben!) ymysg ei gilydd i'w gludo adref. Ac mae'n olygfa ddoniol gweld y dynion ifanc yn ymgasglu'n gynnar yn y bore i roi mochyn ar bolyn a'i rostio a'i droelli'n araf yn yr ardd gefn, ac yna'n eistedd o gwmpas yn siarad am rygbi!

## Rygbi

Mae rygbi'n bwysig iawn yn Tonga ... efallai hyd yn oed yn bwysicach nag yng Nghymru i rhyw raddau! Mae tua 12 tîm rygbi yn Vava'u, sy'n anhygoel ag ystyried maint y boblogaeth! Maent yn hyfforddi bob nos ar ôl gwaith, ac yn aml yn y bore cyn gwaith hefyd! Mae dydd Sadwrn yn ddiwrnod mawr ar brif ynys Vava'u; dim ond un cae rygbi o safon sydd ar yr ynys, felly mae pob gêm yn y gynghrair yn cael eu chwarae yno, un gêm ar ôl y llall trwy'r dydd. Ond mae mwy i'r adloniant na'r chwarae – un o'r agweddau mwyaf diddorol yw'r dorf, yn enwedig y menywod. Maent yn gweiddi ac yn herian ei gilydd, ac yn tynnu coes y chwaraewyr yn ddidrugaredd, hyd yn oed yn rhedeg ar y cae weithiau ac yn malurio ymbarél neu daflu melon ddŵr ar y llawr mewn rhwystredigaeth! Ac os oes un chwaraewr yn llithro neu'n gwneud camgymeriad syml, gellir clywed yr holl dorf yn chwerthin yn uchel! Rhaid canmol y chwaraewyr am fedru canolbwyntio ar y gêm tra fod hyn yn mynd ymlaen o'u cwmpas, heb sôn am y cŵn, y moch a'r plant sy'n crwydro ar y cae heb unrhyw ystyriaeth i'r perygl o gael 30 Tongan mawr yn rhedeg atyn nhw!

## Capel

Mae Tonga'n wlad Gristnogol, ac mae dydd Sul yn cael ei barchu fel yr oedd yng Nghymru 'slawer dydd gyda'r siopau i gyd ar gau a phawb yn cymryd y cyfle i orffwys. Aethom ni i gapel rhieni Polu, sef y Methodistiaid. Pob Sul, bydd dynion Tonga yn gwisgo crys, sgert hir a mat o wellt wedi ei glymu rownd y canol dros y sgert. Dyma'r wisg draddodiadol. Bydd menywod yn gwisgo matiau tebyg, neu addurniadau eraill allan o'r un defnydd dros sgert hir neu ffrog. Maent yn tynnu eu sandalau (mae'n rhy boeth ar gyfer esgidiau!) wrth ddrws y capel cyn mynd i mewn. Mae trefn y gwasanaeth yn debyg iawn i wasanaethau capeli anghydffurfiol yng Nghymru – olion y cenhadon dwi'n siwr. Ond does dim organ na phiano'n agos i'r lle; mae'r canu mor uchel a gwefreiddiol fel nad oes angen offeryn...a byddai'r lleisiau'n boddi unrhyw offerynnau ta beth! Er nad oeddem ni'n deall llawer o'r gwasanaeth, cafwyd bendith wrth weld cymaint o deuluoedd yn mynychu gwasanaethau ar draws yr ynys a phob capel yn agos at fod yn llawn. Yn dilyn y gwasanaeth boreuol mae cinio dydd Sul, sy'n fersiwn ychydig yn llai o'r wledd, ac yna gorffwys a chysgu yn y prynhawn!

## Hwylio

Mae ynysoedd Vava'u yn enwog fel hafan i gychod hwyliau a llongau pleser. Mae'r 'gymuned' newydd hon yn treulio'i dyddiau'n hwylio'r cychod drud a'r nosweithiau yn y bwytai a'r bariau ar y lan, sy'n cael eu rhedeg gan dramorwyr. Mae'n rhyfedd gweld y gwahaniaeth rhwng bodolaeth y morwyr a'r twristiaid hyn, a bywydau'r trigolion lleol fydd byth yn medru prynu cychod o'r fath, a sydd ddim chwaith yn medru fforddio bwyta yn y bwytai ar lan yr harbwr. Cyn symud i Gymru gweithiodd fy ngŵr i gwmni oedd yn llogi cychod hwyliau, ond ein tro ni oedd llogi cwch y tro hwn...ond dim ond am y diwrnod! Golyga llogi cwch fod gennych chi'r rhyddid i ymweld â'r ynysoedd allanol, sydd yn union fel y lluniau o ynysoedd trofannol paradwysaidd sydd gennych yn eich dychymyg; môr clir lliw pwll nofio, traeth gwyn a choed palmwydd. Treuliwyd diwrnod braf yn nofio, snorclo a bwyta, ond doedd dim sôn am y morfilod cefngrwm sy'n mudo i'r dŵr o amgylch Vava'u bob haf.

Roedd e'n wyliau gwych gyda chyfle i bawb ymlacio, ac yn bennaf i Polu weld ei deulu. Dwi'n gobeithio y mwynhaodd fy nheulu gymaint â fi, ac efallai nawr eu bod wedi dod i ddeall pam i mi aros cyhyd (deufis a hanner) bedair blynedd yn ôl!

*Gwenno Uhi*
(gynt Dafydd, Maes Afallen, Bow Street)

**Geiriau** | arlwy – feast | parchu – respect | anghydffurfiol – nonconformist

# Gŵyl Gymreig Gogledd America

Fe hedfanodd yr haf eleni i mi yng Nghanolfan Madog gyda chynhyrchiadau theatrig megis *"That Was Bob"*; sioe newydd ynglŷn â perchennog tai bwyta o'r un enw, Bob Evans a oedd o dras Gymreig a hefyd *"Sweeney Todd – The Demon Barber of Fleet Street"*; sioe gerddorol gan Steven Sondheim, y cefais y fraint o chwarae un o'r prif rannau, 'Mrs Lovett'.

Ond fyse haf yma'n yr Unol Daleithiau ddim yn gyflawn i Gymraes heb benwythnos (neu wythnos gyfan yn fy achos i) yng Ngŵyl Gymreig Gogledd America yn Scranton, Pennsylvania. Mi fuodd yna lawer o drefnu cyn mynychu'r Ŵyl a gynhaliwyd dros *Labour Day Weekend* sef y 30ain o Awst tan yr 2il o Fedi ac roeddwn yn brysurach fyth yn ei hystod!

Fe gyrhaeddom y lleoliad, sef yr Hilton Hotel yn Scranton a oedd yn gartref i bob un achlysur heblaw am y *Grand Concert* (Côr Godre'r Garth) a'r Gymanfa Ganu, (mwy am y rheiny wedyn!)

Y peth cyntaf i'w wneud oedd cofrestru



ac ar yr un pryd, cwrdd â ysgrifennydd y WNAA (*Welsh North American Association*) Dr. Megan Williams a llywydd y WNAA sef Hywel M. Davies. Teimlais yn gysurus iawn wrth iddynt fy nghroesawu i'r ŵyl ac i UDA. Y dasg nesa' oedd i baratoi bwrdd/stondin ein canolfan lawr yn Ne Ohio mewn ystafell o'r enw *Marketplace*. Dyma lle bu nifer o fusnesau bach Cymreig yn ymgynnull er mwyn gwerthu/darparu'u deunydd. Ar ein stondin ni, er enghraifft, roedd yna ddigon o fanylion am y Ganolfan, pamffledi'r *Welsh Byway* a phethau amrywiol eraill fel pamffledi cyrsiau yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant. Wrth fy ochr, roedd yna stondin Llwyau Cymreig Laura Jenkins Gorun, sydd yn cael eu dylunio a'u crefftio gyda llaw ganddi yn ei stiwdio yng Ngholumbus, Ohio. Roedd stondinau eraill yn cynnwys crysau-t Cymreig, llyfrau Cymreig, anrhegion Cymreig a hyd yn oed te Cymreig!! Tu fas i'r *Marketplace* oedd yr Ystafell De, lle roedd te a chacennau bach Cymreig yn cael eu gwerthu. Heb os nac oni bai, dyma oedd fy hoff ystafell, a gallwch weld pobol yn eistedd yma am oriau yn siarad gyda hen ffrindiau ac aelodau newydd dros baned bach o de. I fyny'r coridor, cynhelid seminarau, sesiynau Twmpath Dawns, Ysgol Gân, dosbarthiadau Cymraeg ac Eisteddfod!

Gyda'r nos, ar ôl i bawb newid a ffresáu, ymgasglodd pawb yn y *Casey Ballroom* er mwyn clywed Dafydd Iwan yn y Gyngerdd Agoriadol. Roedd y naws yn drydanol,

## Cystadleuaeth

Penderfynodd y Tincer eleni noddi cystadleuaeth yn sioeau yr ardal - yn anffodus roedd rhaglenni y sioeau ar wahân i un Penrhyn-coch eisoes allan ond os bydd y sioeau yn fodlon bwriedir cynnig eto ym 2013.

**Sioe Penrhyn-coch**
**Llun/ffotograff o adeilad, digwyddiad neu berson o ardal y Tincer.**

**Gwobrau yn roddedig gan y Tincer.**
**Yr enillwyr oedd**

**1af** Lynwen Jenkins, Waunfawr - Danielle a'r Fflam
**2il** Anthony Moyes, Cae Mawr Rhyfel y bysiau
**3ydd** Sian Jenkins, Waunfawr Mam-gur












wrth i Dafydd ein swyno ar y gitâr gydag Euros Rhys Evans ar y Piano. Dim ffys; a dim ffwdan. Perffaith! Clywsom rhai o'i glasuron cyn i bawb symud i lawr i'r lolfa ble roedd hi'n amser y Canu Anffurfiol a fi fy hun oedd yn gyfrifol am wharae'r Piano yn ystod yr achlysur hon! Wel, am gyffro!! Fe ganodd pawb fel canodd 'rhen aderyn bach gyda lleisiau cryf ac angerddol tan oedd hi wedi mynd yn ganol nos! Emynau megis Gwahoddiad, Blaenwern, Aberystwyth, Bryn Calfaria, Llef dim ond i enwi ychydig. Fe ganom ganeuon gwerin hefyd megis Rownd Yr Horn, Moliannwn, Ar Lan Y Môr a chwpwl o rownds o Oes Gafr Eto?! Fe ddigwyddodd y Canu Anffurfiol 'ma pob nos a theimlais fy hun yn troi mewn i'n nhad bob noson!

Cawsom gyngerdd gwefreiddiol arall yn ystod y Gwledda Gala lle swynodd y gantores Iris Williams, OBE ni i ddistawrwydd pur. Er gwaethaf cael ei magu mewn cartref i blant amddifad, fe gafodd Iris yrfa lwyddiannus ym myd cerddoriaeth ar ôl derbyn ysgoloriaeth i Goleg Cerdd a Drama, Caerdydd. Mae hi bellach yn byw yn Efrog Newydd.

Uchafbwynt y penwythnos i rai oedd y Gyngerdd fawr ar nos Sadwrn a oedd yn cynnwys perfformiadau gan Catrin Davies, (enillydd cystadleuaeth *Semi Profesional* y GGGA llynedd a aeth ymlaen i ennill y wobr gyntaf yn y Genedlaethol eleni) a Chôr Godre'r Garth, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths. Uchafbwynt arall, wrth gwrs, oedd y Gymanfa Ganu! Mi roedd Eglwys Methodistiaid Elm Park yn orlawn yn y ddwy sesiwn gymanfa a gawsom ar ddydd Sul yr 2il o Fedi. Cawsom ein harwain gan Gareth Hughes Jones, Cyn-Gynhyrchydd recordiau SAIN ac sy' nawr yn Weinyddwr yn Ysgol Gerdd William Mathias. Cyn i Gareth ddechrau, clywsom air hynod o dyner gan Beth Landmesser, Cadeirydd Lleoliad y GGGA. Fe wnaeth hi ddisgrifio pa mor falch oedd hi i gael yr ŵyl ar stepen drws ei chartref a pa mor falch oedd hi am yr holl bobol a drafeiliodd filltiroedd i fod yna.

Llanfair, Rhys, Morte Christe, Bryn Calfaria, Mawlgan, Pantyfedwen; bois bach – roedd yna ganu hudolus yn yr eglwys yna!! Sut ydw i fod i ddisgrifio eglwys anferth llawn Cymry yn canu ond 'hudolus'? Ie wir, dyma oedd fy uchafbwynt i, yn eistedd gyda Edward Morris Jones gyda'r tenoriaid – am gyngerdd i gloi Gŵyl fendigedig!!!!

Mae'n syndod faint o bobl rydw i wedi cwrdd â hwy dros y penwythnos yna; ffrindiau newydd yn ogystal a'r hen. Ymunwch â ni yng Ngŵyl Gogledd Gymreig America yn Toronto y flwyddyn nesa', Awst 29ain tan Medi'r 1af.

*Lisa Jones*

# Colofn
## Mrs Jones

Y mae'r plant wedi dychwelyd i'r ysgol, felly, digywyddodd dau beth; fe ddechreuodd yr haul dywynnu a'r glaw beidio ac fe ailgychwynnodd y Tincer. Croesewir y ddau, wrth reswm; yr haul am ei gynhesrwydd a'r Tincer am roi gwybod inni beth sydd yn digwydd yn y byd mawr, ond fe ddaliodd Y Tincer fi heb baratoi, braidd, a thipyn o sioc oedd gweld gwys y golygydd ar Facebook.,
A beth ddigwyddodd yn yr haf? Wel,yr Olympics, wrth gwrs, a'r moli ar Team GB a'r canmol ar athletwyr Cymreig. A mi rydw innau yn canmol eu llwyddiant ond yn gresynu at eu diffyg cariad at eu gwlad. Sut Gymro. mewn difrif, yw'r un sydd yn fodlon derbyn anthem a fflag Lloegr yn lle mynnu anthem a fflag ei wlad ei hun? Os ydynt gystal Cymry, paham na fyddent wedi mynnu cael cystadlu fel Cymry? Ac onid yden ninnau yn llywaeth yn derbyn y drefn a dilyn Team GB?

A gwnaed hanes mewn cyfeiriad arall, cafwyd dynes yn Archdderwydd. Mewn difrfif, fy marn bersonol i yw nad ydi rhyw y brif dderwydd yn bwysig fwy nad yw rhyw offeiriad yn bwysig, yr hyn sydd yn bwysig yw addasrwydd y person ei hun. A mi allaf feddwl y gwna Christine James job iawn ohoni gan dderbyn holl gyfrifoldeb y swydd gan gynnwys y ffaith fod gan yr archdderwydd agwedd wleidyddol i waith yn yr ystyr y gall ddisgwyl gorfod cefnogi y ffordd Gymreig o feddwl pan yw honno yn wahanol i'r un Seisnig.

Mitt Romney gafodd lawer o sylw gwleidyddol yr haf am resymau amlwg iawn. A bwrw Cymreictod ei wraig a'i gallu i wneud cacen gri o'r neilltu am funud, a fydd Romney yn Arlywydd America? Mae'n edrych yn debyg iawn y gall ddymchwel Obama a hynny am gymysgedd o resymau. Ar y naill law, nid yw pobl yn gallu credu ei bod hi yn well arnynt y dyddiau hyn na phan ddechreuodd Obama reoli ac ar y llaw arall, maent yn ofni sosialaeth honedig Obama a hyn i gyd oherwydd fod arian Romney yn medru prynu y wasg i lurgunio barn. Fy marn i yw y gallai Romnney fod yn ddyn peryglus iawn, yn ddyn y gall ei gredoau ef ei hun ei wneud yn dipyn bach o 'loose cannon' gwleidyddol; - ffactor bwysig iawn i ni ym Mhrydain ei gofio o ystyried ein bod ni mor hoff o ddilyn America i ryfel fel ci bach yn dilyn ei feistr. Yn sicr, y mae agweddau Romney a'i griw at ferched yn un amheus. Nid ydynt, er enghraifft, yn credu mewn gwrthwynebu trais ar ferched.

Ar lefel leol a phersonol, fe gafodd llawer o bobl lwyddiant mewn sioe ac eisteddfod a rhaid eu llongyfarch hwy.Yn sicr ddigon, rhaid llongyfarch a dymuno yn dda y plant sydd yn newid ysgolion a'r bobl ifanc sydd yn mynd i goleg. A mi ydw i am orffen trwy apelio ar y rheini i ddod yn ôl adref i weithio pan fydd eu hyfforddiant drosodd, peidiwch ag ymwerthu i drefi mawr fel Caerdydd. Dowch adref i gynnal eich bro adref. Mwynhewch eich hunain a gweithiwch yn galed a byddwch yn ofalus.

**Geiriau** **angerddol – passionate** **ymgynnull – assemble** **amddifad – orphan**

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Tymor yr Haf

Wrth edrych yn ôl ar ddiwedd tymor yr haf yn Ysgol Craig yr Wylfa, mae'r lluniau yn portreadu cyfnod hapus iawn, a rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Cyfnod i ymlacio wedi tymor caled o waith, mwynhau yng nghwmni ffrindiau a pharatoi ar gyfer gwyliau llawn haeddiannol.



Blwyddyn 5 a 6 yn falch bod eu rafft yn arnofio ar Lyn Tegid



Dosbarth Mr Leggett yn joio yn y twyni tywod yn Ynys-las



Eliza a Phoebe yn mwynhau rownd fach o Crazy Golff



Dosbarth Mrs Lewis yn chwilota am fywyd natur gwyllt yn Ynys-las



Plant blinedig yn bowlio deg ar ôl wythnos brysur yng Nglan-llyn



Y bechgyn wedi'i ddiddanu'n llwyr yn yr ystafell Lego yn Bluestone

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com



Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur 2013
*17 Tachwedd*
Bwyd, adloniant ac ocsiwn
yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth
am 7.30
**Pris tocyn: £20**
**Ar gael gan Trefor Puw**
**01974 272 214 neu olygydd y Tincer**

# Ysgol Pen-llwyn



Ymlacio wedi'r mabolgampau.



Plant y Meithrin yn mwynhau




Helpu i ddatblygu'r orsaf lleol.



Dawnswyr o Georgia yn barod i berfformio

## Gwasanaeth gadael

Trist oedd ffarwelio â Iestyn, Steffan a Rebecca ar ddiwrnod olaf o dymor yr Haf. Mi fydd yr ysgol yn eu colli gan eu bod wedi dechrau ym Mhenweddig erbyn hyn. Pob hwyl iddynt yno a diolch i'w teuluoedd am gefnogi'r ysgol gymaint hefyd.

## Mabolgampau

Oherwydd y tywydd gwael fe gynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar ddiwrnod olaf tymor yr Haf ar gae Statkraft yng Nghwmrheidol. Roedd pawb wedi gwerthfawrogi'r heulwen wrth i'r plant gystadlu'n frwd. Mae ein dyled yn fawr i Statkraft am gael defnyddio'r llecyn delfrydol hwn i'n mabolgampau'n flynyddol.

## Helpu'r Rheilffordd

Fe gafodd rhai o'r plant y cyfle ar ddiwedd y tymor i helpu cwmni rheilffordd Cwmrheidol i wella gorsaf Capel Bangor. Os ydych yn mynd dros y bont i gyfeiriad y dref yna edrychwch ar yr ardd ysblennydd i'r dde. Diolch i Helen am drefnu hyn. Mae si ar led for Mr Michael Portillo am ddod i'n gweld cyn bo hir!

## Wythnos Fusnes

Fe gynhaliwyd wythnos fusnes yr ysgol ym mis Gorffennaf pryd y daeth Mrs Elisabeth Kensler, Mrs Margy York, Mrs Jane Griffiths a Mrs Helen Lewis i sôn am eu profiadau yn gweithio ym meysydd llyfrgelloedd, sgiliau'r ostiopath, y diwydiant croeso a milfeddygaeth. Fe ehangwyd gorwelion y plant o'r byd y tu allan i ffiniau'r ysgol ac fe ofynnwyd nifer o gwestiynau treiddiol. Os bydd canran uchel o blant yr ysgol yn filfeddygon yn y blynyddoedd i ddod, mi fyddwn yn gwybod pam! Diolch i'r pedair ymwelydd am roi o'u hamser yn hael.

## Eisteddfod Llangollen

Ar yr ail o Orffennaf fe fu'r ysgol ar ein trip i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Wedi dechrau cynnar fe gyrhaeddon ni faes yr Eisteddfod am 11 o'r gloch. Cyn pen dim roedd y plant i gyd yn cymryd rhan mewn sesiwn cadw'n ffit gyda Heini o S4C. Fe gafwyd cyfle i edrych o gwmpas y maes i wario'r arian oedd yn llosgi ym mhocedi rhai. Fe synnwyd pawb yn ystod y cyngerdd yn y prynhawn gan egni y dawnswyr o Georgia oedd yn cynnwys nifer o blant. Mi oeddynt wedi teithio yn ddi stop i fod yno! Ar y ffordd adref fe fwynhawyd pryd da o sglodion ym Machynlleth.



Gwneud ffrind newydd yn Llangollen

## Y Faner Werdd

Llongyfarchiadau i aelodau'r Pwyllgor Eco am eu gwaith caled gan ein bod wedi derbyn y Faner Werdd sy'n dyst o ymrwymiad yr ysgol tuag at ein hamgylchfyd. Diolch i Mrs Emma Parr Davies fu'n gweitho'n ddiwyd gyda'r pwyllgor hefyd. Yr ydym eisioes wedi derbyn y faner ac yn awr yn edrych ymlaen at ei gweld yn chwifio y tu allan i'r ysgol cyn bo hir.

## Ffair Haf

Fe ddaeth tyrfa dda ynghyd i fwynhau ein Ffair Haf pryd yr oedd cyfle i fwynhau paned a byrgyrs blasus o'r Barbeciw. Da oedd gweld y plant yn mwynhau' r gweithgareddau yn enwedig y cyfle i luchio eu hunain i lawr y banc ar y llithren. Diolch i'r Pwyllgor rhieni athrawon am fod mor ddiwyd yn ystod y flwyddyn unwaith eto.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Tripiau Ysgol

Yn ystod wythnosau olaf y tymor diwethaf, teithiodd yr holl ysgol ar eu tripiau ysgol. Eleni, aeth y ddau gyfnod allweddol i wahanol fannau. Teithiodd y Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd i Park Hall, ger Croesoswallt. Yno bu'r disgyblion wrthi yn mwynhau gyda'r anifeiliaid gan gael cyfle i'w bwydo a'u gweld o fewn eu cynefin. Cafwyd cyfle hefyd i chwarae ar yr adnoddau yno. Cafwyd diwrnod da iawn gyda'r holl ddisgyblion yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Teithiodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr holl ffordd i Glwb Golff Capel Bangor. Er hynny, ni chafwyd cyfle i chwarae golff gan eu bod yn treulio'r amser yn gwneud anturiaethau awyr agored o dan arweiniad Colossal Activities. Gwelwyd yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i saethu "paint ball," saethydddiaeth, cyfeiriannu, gwlychu ar y llyn Kayak a chymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm. Cafwyd diwrnod arbennig yno a diolch i Colin, Shaun a Ryan am wneud y trip yn un cofiadwy.

### Gwasanaeth Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Daeth criw dda o rieni at ei gilydd a chafwyd prynhawn go wahanol. Treuliwyd nifer o'r wythnosau blaenorol yn paratoi cân arbennig o atgofion y plant o'r staff yn yr ysgol. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

### Yr Ysgol Feithrin

Cafwyd newyddion arbennig yn ystod wythnosau olaf y tymor diwethaf. Derbyniodd y Cylch Meithrin grant gan Gronfa'r Loteri o £160,000. Pwrpas y grant ydy adeiladu adeilad pwrpasol ar dir yr ysgol ar eu cyfer. O ganlyniad i'r grant, bydd yr hen gaban ar dir yr ysgol yn cael ei waredu gyda'r adeilad newydd yn mynd yn ei le. Bydd y Cylch a Clwb Cwl yn cyfarfod o fewn yr adeilad newydd. Gobeithir cychwyn ar y gwaith o glirio'r safle yn fuan iawn.

Ffarwelwyd â'r Cylch Meithrin o dir yr ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Bu'r Cylch yn cyfarfod ar dir yr ysgol tra adnewyddwyd Neuadd y Pentref. Diolch iddynt am eu cwmni ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl ar dir yr ysgol cyn hir.

### Gwersyll Llangrannog

Cyn diwedd y tymor, bu Mr Roberts, Mrs Daniell a Mrs Hicks yn ddigon dewr i deithio gyda'r mwyafrif o ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 i wersyll yr Urdd Llangrannog. Teithiodd disgyblion o ysgol Llanilar gyda hwy. Treuliwyd tridiau yno yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys, sgïo, nofio, beicio ac ati. Cafwyd llawer iawn o hwyl a sbri gyda phawb yn mwynhau. O'r storïau a ddaeth yn ôl gyda rhai o'r disgyblion, hoff weithgaredd ambell i berson oedd y disgo!! Edrychwn ymlaen yn awr i weld y lluniau a dynnwyd!


Rhai o ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 wrthi yn mwynhau ar y trip ysgol

### Its a Knockout

Fel newid eleni, ni chafwyd cystadleuaeth Dodgeball i godi arian i'r ysgol. Syniad newydd a gafwyd oedd noson o "Its a Knockout!" Yn anffodus, dim ond pedwar tîm a fu'n ddigon dewr i gymryd rhan. Gwelwyd gêmau amrywiol yn cael eu paratoi gan gynnwys, symud teiars, cario dŵr ynghyd â gemau hwyliog eraill. Pwyslais y cystadlu oedd cael hwyl wrth godi arian. Daeth tyrfa dda iawn i gefnogi ac i fwynhau y stondinau eraill megis y barbeciw, y "Stocks" a'r gêmau eraill. Cafwyd te a choffi ynghyd â raffl. Cafwyd noson arbennig gyda phawb yn mwynhau ac yn bwysicach yn cymdeithasu wrth godi arian. Er i'r tywydd droi ar y diwedd, cafwyd llawer o hwyl. Diolch i aelodau'r tîmau a ddaeth i gystadlu ac i'r reffari – Mr Andrew "Stuart Hall" Curley. Diolch hefyd i bawb a fu wrth y stondinau, y barbeciw a'r lluniaeth. Diolch i Miss Cory am gydlynu'r holl weithgareddau Its a Knockout ac i'r staff am eu cymorth. Gobeithio y cawn rhagor o dimau yn cymryd rhan y flwyddyn nesaf!!

### Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau ar un o'r diwrnodau braf prin ym mis Mehefin. Cynhaliwyd nifer o'r cystadlaethau maes cyn y diwrnod o fewn y gwersi addysgu gorfforol. Cafwyd prynhawn arbennig o gystadlu ar ddiwrnod y mabolgampau ac yng nghanol yr holl gystadlu brwd, cafwyd llawer o hwyl a sbri. Croesawyd rhai o aelodau'r Ysgol Feithrin i lawr i gymryd rhan. Ar ddiwedd y prynhawn, Stewi fu'n fuddugol a cyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tîm buddugol gan Mr Evans. Diolch i Miss Cory am drefnu prynhawn hwyliog iawn.

### Arolwg

Yn ystod tymor yr Haf, derbyniodd yr ysgol Arolwg gan Arolygwyr Ei Mawrhydi o ESTYN. Erbyn hyn mae'r Adroddiad llawn wedi ei gyhoeddi. Fel ysgol, rydym yn ymfalchio yn yr Adroddiad gan ei fod yn adlewyrchiad teg o waith di flino yr holl staff a'r disgyblion. Os hoffech dderbyn copi o'r Adroddiad llawn, cysylltwch a'r ysgol neu mae copiau ar wefan yr ysgol http://www.penrhyncoch.ceredigion.sch.uk/index.php?lang=cy a gwefan ESTYN http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/search/?keywords=penrhyncoch&gobut.x=0&gobut.y=0.

### CD

Erbyn hyn mae Cryno Ddisg Côr yr ysgol wedi ei lansio. Enw'r CD ydy "Byddwch Lawen" a cheir 10 cân arno. Mae'r caneuon yn cynnwys rhai tymhorol, gan gynnwys Nadolig, rhai hwyliog ynghyd â rhai o ffefrynnau'r disgyblion a'r rhieni. Recordiwyd y CD mewn diwrnod yn neuadd yr ysgol. Diolch i Dennis York o Gwmni "The Village Idiot" o'r Borth am recordio a chymysgu'r CD. Os hoffech archebu copi o'r CD, cysylltwch a'r ysgol. Cost y CD ydy £6-50.

### Disgyblion newydd

Ar gychwyn y tymor, croesawyd pump o ddisgyblion newydd i'r ysgol. Ymunodd Lowri, Leah ac Olivia atom ynghyd â Ryan a Jack. Croeso i'r pump atom a gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

# Ysgol Rhydypennau

### Prysurdeb

Ar ddechrau blwyddyn academaidd arall, mae prysurdeb yr ysgol yn parhau. Yn barod, rydym yn y broses o ethol, trwy bleidlais, Y Cyngor Ysgol. Fel pob blwyddyn arall mi fydd, aelodau'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion.

Yn ychwanegol i hyn, ac ar ôl cwblhau ffurflenni cais a chyfweliadau gyda'r prifathro, mae blwyddyn 6 yn ran o Griw Cŵl yr ysgol. Maent yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau pwysig yn ystod y flwyddyn.

### Ffarwelio a Chroesawu

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf. Hoffai'r ysgol ddiolch i Miss Rachel Vearey-Roberts, athrawes y dosbarth Meithrin y llynedd, gan ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd; ar yr un pryd, hoffwn groesawu Mrs Helen Jones nôl i'n plith ar ôl secondiad blwyddyn gyda'r Swyddfa Addysg.

### Garddwest yr ysgol

Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar ddydd Gwener cyntaf Gorffennaf yn hytrach nag ar benwythnos olaf Mehefin ac fe agorwyd yr arddwest yn swyddogol gan Mr a Mrs Wyn Lewis. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr a sawl stondin amrywiol. Yn ystod y prynu a'r gwerthu, er fod y tywydd braidd yn ddiflas, codwyd £2,330 i gronfa'r ysgol.

Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson, i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth ac i bawb arall am wario ambell geiniog neu ddwy yn ystod y noson.

Can diolch hefyd i'n prif noddwr, Colin Ewart, Painting and Decorating; ac i noddwyr y gwobrau- Gerwyn Evans Y Saer, Pentref Gwyliau Bae Clarach a Gwair a Gwellt Rheinallt Morgan.

Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

### Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 4ydd o Orffennaf. Y tîm buddugol eleni oedd Ystwyth gydag Eleri yn ail a Rheidol yn drydydd, Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau i'w tai; Lydia Powell-Merched Blwyddyn 3 a 4; Tomos Lyons-Bechgyn 3 a 4. Megan Jackson-Merched Blwyddyn 5 a 6 a Shaun Jones-Bechgyn Blwyddyn 5 a 6.

### Gala Nofio

Llongyfarchiadau i Ystwyth ac Eleri am ddod yn gydradd gyntaf yn y Gala yn ddiweddar. Y ferch â'r pwyntiau mwyaf yn ystod y cystadlu oedd Sophie Jones Blwyddyn 5. A'r Bachgen â'r mwyaf o bwyntiau oedd Lewis Drakeley blwyddyn 6.

A dyma'r Gerdd:-

**Fy Siop Siocled**
Mi godaf yn y bore
i agor fy hen siop,
tybed fydda i
yn gwerthu loli-pop.
Ond siocled yw fy musnes
ac arbrofi a wnai i
i ddod o hyd i'r blasau
mwyaf blasus yn y byd.
Rhaid cael siap i ddechrau
a glôb yw'n ffefryn i
a blasau dirifedi
i'n planed hynod ni.
I'r Affrig flas casafa
ac Ewrop siocled llaeth
yn Asia darnau sbeislyd
amrywiaeth ar ein taith.
I Oceania barbyciw
yn Ne'r Amerig coco
Rhof siwgr candi i'r hen Ianks
a dyna bawb di plesio.
A'r gwaith o greu 'di gorffen
a gwerthu wrth y fil
rhaid rhannu'r pres â ffermwyr tlawd
er lles pob gwlad a hil.

*Rhys Tanat Morgan*

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Medi :
1af-£25-Gerwyn Morgan, Muriau Gwyn, Beulah
2il-£15-Gillian Quant, Pine Croft, Llandre
3ydd-£10-Gwawr Morgan, Ger y Nant. Dolau

### Gorchest Rhys

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Tanat Morgan blwyddyn 5; llwyddodd Rhys i gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth 'Divine Chocolate' yn unol â'r elusen 'Cymorth Cristnogol'. Cyhoeddwyd yr enillwyr gan Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru.

Mae'r gystadleuaeth yn bodoli ers degawd bellach ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chynnal yn y Gymraeg.

Dyma ran o'r cyhoeddiad gan y wasg:-
" Enillodd Rhys Tanat Morgan o Ysgol Rhydypennau, Bow Street yr ail wobr yn y Categori 7-11; aiff ei gerdd ddengar a ni ar siwrne o amgylch y byd, gan brofi blasau newydd lle bynnag yr awn", meddai Eirug.






**Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**

# Tasg y Tincer



Alys Griffiths

Wel, gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau'r haf, er gwaethaf y tywydd! A fuoch chi'n dilyn y Gêmau Olympaidd ar y teledu, neu tybed a fuodd rhai ohonoch yn Llundain yn eu gwylio? Beth oedd eich hoff gamp? Mi wnes i fwynhau'r nofio a'r athletau. Mae'n siŵr fod sawl un ohonoch chi wedi bod i'r Steddfod hefyd ym Mro Morgannwg, ac eraill ohonoch wedi mentro dros y dŵr mewn cwch neu awyren.


Dyma pwy fu'n lliwio tasg Mehefin: Gwenno Mair Griffiths, Y Borth; Lleucu Siôn, Llandre; Elin Gore, Comins-coch; Seren Pugh, Bow Street; Heledd Hywel, Caerdydd; Luned Swyn Owen, Caernarfon; Tooley Everard-Walker, y Borth; Jessica Mai Evans, Bow Street; Alys Griffiths, Bow Street; Garan ac Ela Thomas, Llandaf, Caerdydd.

Diolch yn arbennig i Gruffudd, Gwion a Morgan Iwan Ebenezer Ellis o Waelod y Garth, a Garan ac Ela Thomas, Llandaf am eu lluniau hyfryd o'r rhedwr yn cario'r fflam Olympaidd - diolch am liwio!

Ti, Alys Griffiths sy'n ennill y wobr y tro hwn. Roedd dy lun o'r gwalch yn llawn lliwiau llachar.

Y mis hwn, beth am liwio'r gwahanol fathau o adeiladau sy'n y llun? Efallai fod rhai ohonoch wedi ymweld ag adeiladau tebyg i'r rhain yn ystod y gwyliau, neu hyd yn oed wedi aros dros nos yn un ohonynt. Pa un yw eich hoff adeilad? Rwy'n hoffi'r goleudy, ond wn i ddim a fyddwn i am aros dros nos mewn goleudy ar noson stormus ar fy mhen fy hun! Mae gan Gymru sawl goleudy, gan gynnwys rhai yn Sir Benfro, un ar Ynys Enlli, ac mae 'na rai ar Ynys Môn hefyd. Goleudy hynaf Cymru yw'r un yn Nhalacre, yng ngogledd ddwyrain Cymru, a adeiladwyd ym 1777. Mae hen felinau gwynt i'w gweld ar Ynys Môn, ac maen nhw'n reit wahanol i'r melinau gwynt modern sydd i'w gweld ar Fynydd Gorddu! A hoffech chi fyw mewn castell crand, neu beth am fwthyn bach to gwellt?

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Hydref 1af. Ta ta tan toc, a phob hwyl ar y tymor newydd yn yr ysgol!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn**


**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 351a | MEDI 2012